sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC




**Cyhoeddwyd 22 Mehefin 2022**

# Cynnwys

## Adran


| | |
|---|---|
| 1. Trosolwg | 1 |
| 2. Cyd-destun ein hadolygiad | 9 |
| 3. Tryloywder | 22 |
| 4. Safonau a diogelu cynulleidfaoedd – gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd y BBC | 26 |
| 5. Cynigion ar gyfer newidiadau i drwydded weithredu'r BBC | 38 |
| 6. Cynigion ar gyfer newidiadau i'r fframwaith cystadleuaeth | 46 |

# 1. Trosolwg

## Mae'r BBC yn ganolog i lwyddiant sector darlledu'r DU

1.1 Cenhadaeth y BBC yw gwasanaethu pob cynulleidfa yn y DU trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn difyrru. Daeth Ofcom yn rheoleiddiwr annibynnol cyntaf y BBC yn 2017. Mae'n rhaid i ni ddwyn y BBC i gyfrif am gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus ar ran cynulleidfaoedd, diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, a sicrhau safonau cynnwys yn rhaglennu'r BBC.

1.2 Mae cylch gwaith y BBC yn ei roi wrth wraidd sector darlledu'r DU ac mae ei lwyddiant yn bwysig i gynulleidfaoedd a'r economi greadigol ar draws y DU. Mae'n darparu ystod eang o gynnwys nodedig a chreadigol o ansawdd uchel, gan gynnwys maint sylweddol o newyddion a materion cyfoes dibynadwy ac amrywiaeth o raglenni addysgol a dysgu a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

1.3 Yn ein hadolygiad diweddar o berfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hwn, bu i ni nodi bod y BBC, yn gyffredinol, wedi cyflawni ei gylch gwaith. Mae dros 80% o oedolion yn defnyddio'r BBC bob wythnos – cyfran uwch nag ar gyfer unrhyw ddarlledwr arall yn y DU.[1] Mae boddhad cynulleidfaoedd â'r BBC yn cymharu'n dda â darparwyr cynnwys eraill a dyma'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf o hyd ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Chwaraeodd y BBC ran hollbwysig yn y gwaith o ddarparu addysg yn ystod pandemig Covid-19 ac mae'n dod â'r wlad ynghyd ar gyfer digwyddiadau gwerthfawr fel Cwpan y Byd Pêl-droed Menywod a *Strictly Come Dancing* yn ogystal â digwyddiadau eraill o arwyddocâd cenedlaethol fel darllediadau o ddathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

1.4 Mae'r BBC yn buddsoddi mwy yn economi greadigol y DU nag unrhyw ddarlledwr arall – gwariodd dros £500m yn cefnogi cynhyrchwyr annibynnol y DU yn 2020/21[2] ac mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu i adeiladu sector cynhyrchu o fri rhyngwladol. Yn ei *Strategaeth ar draws y DU* , ymrwymodd y BBC hefyd i gynyddu ei fuddsoddiad mewn cynnwys teledu a radio yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

## Mae angen i'r BBC drawsnewid a moderneiddio i fod yn berthnasol i bob cynulleidfa

1.5 Nid yw cylch gwaith y BBC wedi newid. Fodd bynnag, ers i'r Siarter gael ei rhoi ar waith, mae cynulleidfaoedd mwy bratiog, newidiadau i'r farchnad a phwysau cyllidebol, wedi gwneud cyflawni'r Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus yn fwy heriol. Er enghraifft, mae cynulleidfaoedd yn symud fwyfwy oddi wrth wasanaethau teledu a radio darlledu i

[1] IPA TouchPoints 2021 w2

[2] Pact, 2021, UK Television Production Survey: Financial Census 2020, p.17.

wasanaethau ar-lein ac mae llawer mwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd, yn enwedig gan randdeiliaid byd-eang arloesol a ariennir yn dda.

1.6 Bu i ni ddweud yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* bod angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) gyflymu eu cynlluniau digidol er mwyn cynnal cysylltiad cryf â chynulleidfaoedd, yn enwedig grwpiau oedran iau. Mae'n hanfodol bod y BBC yn trawsnewid y ffordd y mae'n cyrraedd ac yn parhau i fod yn berthnasol i wylwyr a gwrandawyr ar draws y DU. Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid iddo barhau i ddatblygu ei wasanaethau ar-lein, ac ar yr un pryd cynnal y gwaith o ddarparu cynnwys unigryw a gwreiddiol yn y DU.

1.7 Ym mis Mai 2022, nododd y BBC ei strategaeth ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter, gan ganolbwyntio ar drawsnewid ei ddarpariaeth ar-lein er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posib o ffi'r drwydded a darparu mwy i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys neilltuo mwy o arian i raglenni newydd ar gyfer BBC iPlayer, symud allbwn lleol a rhanbarthol tuag at ddigidol, symud adnoddau o newyddion darlledu i newyddion fideo digidol ac ar-lein, a buddsoddi mwy mewn datblygu cynnyrch ar gyfer ei wasanaethau ar-lein.

## Mae angen i reoleiddio fod yn addas i'r diben

1.8 Mae'n rhaid i'n rheoleiddio beidio â chreu rhwystr i'r BBC drawsnewid a moderneiddio ei wasanaethau er mwyn addasu i ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd. Yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* bu i ni nodi bod angen ailwampio deddfwriaeth ar gyfer yr oes ddigidol er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn parhau i elwa o raglenni a newyddion DU o ansawdd uchel. Mae Llywodraeth y DU bellach wedi cyhoeddi ei bwriad i weithredu argymhellion allweddol yn ei Phapur Gwyn.

1.9 Yn yr adolygiad hwn rydym wedi edrych ar bob maes o'n rheoleiddio ac wedi ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i sicrhau bod rheoleiddio'n effeithiol o ran diwallu anghenion cynulleidfaoedd am weddill cyfnod y Siarter hwn. Mae ein hadolygiad yn seiliedig ar ein rhaglen ymchwil helaeth, ein profiad o reoleiddio'r BBC, barn rhanddeiliaid a'n hargymhellion yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.*

1.10 Mae angen i reoleiddio rhoi cymhelliant i'r BBC ddatblygu a chynnal perthynas ddibynadwy â chynulleidfaoedd; mae hyn yn hanfodol i gynaladwyedd y BBC. Mae'n rhaid i'r BBC fod yn ymatebol i bryderon cynulleidfaoedd a rhoi hyder iddynt y bydd eu cwynion yn cael eu hystyried yn deg. Mae hyn yn hanfodol os yw'r BBC am barhau i fwynhau manteision ei fframwaith cwynion unigryw, BBC First.

1.11 Mae'n rhaid i'r fframwaith rheoleiddio hefyd gadw i fyny â'r amgylchedd newidiol y mae'r BBC yn gweithredu ynddo. Nid yw Trwydded Weithredu gyfredol y BBC yn adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys nac yn caniatáu i'r BBC addasu'n gyflym i ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd. At hynny, er mwyn i'r BBC wneud newidiadau rheolaidd i'w gwasanaethau fel ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn briodol, mae angen diwygio rheoleiddio cystadleuaeth.

1.12 Mae'r adroddiad hwn yn nodi crynodeb o'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'n rheoleiddio. Mae hefyd yn amlinellu argymhellion i Lywodraeth y DU ar newidiadau y gellid eu gwneud i'r Cytundeb Fframwaith.

1.13 Ochr yn ochr â'r adroddiad rydym yn cyhoeddi Penderfyniadau Ymdrin â Chwynion diwygiedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu llawer mwy o dryloywder o ran y gyfundrefn BBC First. Rydym hefyd yn ymgynghori ar newidiadau i ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC fel ei bod yn parhau i fod yn effeithiol, nawr ac yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y BBC yn darparu cynnwys a gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel ar gyfer pob cynulleidfa ar draws y DU. Yn yr hydref, byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'n rheoleiddio cystadleuaeth er mwyn galluogi'r BBC i addasu ei wasanaethau'n fwy effeithiol er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well, ac ar yr un pryd diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol. At hynny, rydym hefyd yn cyhoeddi'r ymchwil rydym wedi'i wneud ar gyfer yr adolygiad hwn.

## Mae mwy o dryloywder yn hanfodol ar gyfer diweddaru a moderneiddio rheoleiddio'r BBC

1.14 Mae tryloywder yn bwysig i'r BBC er mwyn sicrhau ei fod yn cynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth y cyhoedd. Fel corff a ariennir yn gyhoeddus, mae'r BBC yn atebol am y ffordd y mae'n darparu ei gwasanaethau i bob cynulleidfa. Mae diffyg tryloywder wedi bod yn nodwedd gyson o'n hasesiad o berfformiad y BBC ac mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon yn aml. Mae gofynion tryloywder ychwanegol yn hanfodol i ddiweddaru a moderneiddio ein rheoleiddio ar draws ein holl ddyletswyddau.

1.15 Byddwn yn rhoi gofynion newydd ar waith i sicrhau bod y BBC yn agored ac yn glir ynghylch sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd ac yn ymateb i'w pryderon. Yn wahanol i ddarlledwyr eraill, gall y BBC ddatrys cwynion gan gynulleidfaoedd cyn iddynt ddod i Ofcom, felly mae'n hanfodol bod y BBC yn esbonio i'r rhai sy'n talu'r ffi trwydded sut y mae'n ymdrin â'u cwynion ac yn gwneud penderfyniadau arnynt, er mwyn cadw eu hymddiriedaeth. Mae gwell dryloywder hefyd yn hanfodol lle yr ydym yn bwriadu dileu rhai o'r cwotâu sy'n benodol i wasanaethau yn y Drwydded Weithredu, fel y gallwn ddwyn y BBC i gyfrif wrth gyflawni ei chylch gwaith. Credwn fod angen gwell ymgysylltu rhwng y BBC a rhanddeiliaid fel y gall y BBC ddeall effaith gystadleuol bosib newidiadau arfaethedig i'w gwasanaethau.

## Mae angen gwelliannau i'r broses gwyno BBC First

1.16 Dengys ymchwil gyda chynulleidfaoedd fod gan y rhai sy'n talu ffi trwydded y BBC ymdeimlad o berchnogaeth ar y BBC. Mae'r system gwynion BBC First, a amlinellwyd gan Senedd y DU yn Siarter a Chytundeb y BBC, yn cydnabod y berthynas uniongyrchol hon â chynulleidfaoedd ac yn rhoi cyfle i'r BBC ymateb i gwynion a'u datrys cyn iddynt gael eu hesgoli i Ofcom. Er mwyn i'r system hon weithio mae'n hanfodol bod gan y BBC broses gwynion effeithiol a hawdd ei defnyddio a'i bod yn agored ynghylch sut mae'n ymdrin â phryderon cynulleidfaoedd. Mae hyn yn gofyn am fwy o dryloywder ynghylch

penderfyniadau'r BBC wrth ymateb i gwynion golygyddol, ac mae'n hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd.

1.17 Gofynnwyd i gynulleidfaoedd am eu profiadau a'u canfyddiadau o broses gwynion y BBC. Yn gyffredinol, nid ydynt yn gwrthwynebu'r system bresennol. Fodd bynnag, nid oedd ymatebwyr yn glir ynghylch proses y BBC ac roeddent yn pryderu am yr amser a gymerir i ymateb yn ogystal â thôn a manylder yr ymatebion. Yn gyffredinol, mae ein hymchwil yn dangos y gallai'r nifer isel o gwynion sy'n cael eu cyfeirio at Ofcom fod o ganlyniad i rwystredigaeth yn hytrach na boddhad â'r ffordd y mae'r BBC wedi delio â phryderon cynulleidfaoedd. Felly, mae'n rhaid i'r BBC ystyried ar frys pa newidiadau sydd eu hangen i'w brosesau i'w gwneud yn symlach ac yn gliriach i gynulleidfaoedd eu llywio.

1.18 Ochr yn ochr â hyn rydym yn cyflwyno rheoleiddio newydd i sicrhau bod y BBC yn fwy tryloyw ac agored. Rydym wedi diweddaru ein Penderfyniadau ar Ymdrin â Chwynion i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi'r rhesymeg y tu ôl i'w phenderfyniadau i beidio â chynnal cwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy, sy'n cyrraedd cam olaf ei broses gwynion. Mae bod yn ddiduedd yn parhau i fod yn faes allweddol sy'n peri pryder i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid: bydd mwy o eglurder ynghylch sut mae'r BBC yn asesu pryderon yn y maes hwn yn rhoi mwy o hyder i gynulleidfaoedd yn y penderfyniadau a wneir ac yn helpu i ddangos ymrwymiad y BBC i'r egwyddor.

1.19 Mae'n rhaid i'r BBC hefyd fod yn fwy tryloyw gydag Ofcom. Mae'n rhaid bod gennym ddigon o oruchwyliaeth dros broses gwynion y BBC i ddal y BBC i'r safonau uchaf o ran sut y mae'n ymateb i bryderon cynulleidfaoedd, a chael ein bodloni ein bod yn mabwysiadu ymagwedd gyson at ddiogelu cynulleidfaoedd ar draws y diwydiant. Felly, rydym yn pwysleisio wrth y BBC bwysigrwydd rhybuddio ni'n gynnar am achosion posib o dorri amodau golygyddol difrifol. Os nad yw'n fodlon darparu'r wybodaeth hon i Ofcom yn wirfoddol, byddwn yn argymell bod Llywodraeth y DU yn newid y Cytundeb, fel y gall Ofcom ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu'r wybodaeth hon. Rydym hefyd wedi cytuno â'r BBC y bydd yn darparu tryloywder ychwanegol i Ofcom yn ystod etholiadau a refferenda.

1.20 Byddwn yn rhoi sylw manwl a rheolaidd i effeithiolrwydd BBC First. Disgwyliwn i'r BBC ystyried a chymryd camau priodol yn ofalus wrth ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan gynulleidfaoedd yn ein hymchwil. Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o'r system BBC First cyn diwedd y Siarter bresennol i asesu effaith y newidiadau a wnaed gennym, ac unrhyw newidiadau a wnaed gan y BBC wrth ymateb i'r adolygiad hwn. Byddwn hefyd yn diweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o broses gwynion y BBC yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

## Mae'n rhaid i'r BBC ymdrin â phryderon sy'n codi o ganfyddiadau o'i ddidueddrwydd dyladwy

1.21 Mae cynnal didueddrwydd dyladwy yn ganolog i'r BBC wrth gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus – er mwyn cynnal ymddiriedaeth y gynulleidfa mae'n bwysig bod y BBC yn cael ei ystyried yn gwbl ddiduedd. Mae gan y BBC gofnod da o gydymffurfio â

rheolau darlledu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'w raglenni adlewyrchu safbwyntiau amgen yn briodol, gan gymryd pwnc a natur y rhaglen i ystyriaeth. Fodd bynnag, pan fyddwn wedi holi cynulleidfaoedd am newyddion y BBC, er eu bod yn ei raddio'n uchel am ymddiriedaeth a chywirdeb, maent yn gyson yn graddio'r BBC yn llai ffafriol ar fod yn ddiduedd.[3]

1.22 Mae agweddau cynulleidfaoedd ar ddidueddrwydd dyladwy yn parhau i gael eu llywio gan ffactorau lluosog, ac nid yw llawer ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Mae’r rhain yn cynnwys: yr ymdeimlad o berchnogaeth sydd gan gynulleidfaoedd gyda'r BBC; brand cyffredinol y BBC; sut mae'n ymateb i bryderon cynulleidfaoedd; y ffordd y mae pobl yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin; y storïau y mae'n dewis ymdrin â nhw; a sut mae didueddrwydd y BBC yn cael ei herio yn y cyfryngau ehangach.

1.23 Mae llawer o'r drafodaeth ynghylch didueddrwydd y BBC yn mynd yn ehangach na chyfrifoldeb Ofcom dros orfodi safonau o ran cynnwys; mae'n cyffwrdd â phryderon cymdeithasol eang fel amrywiaeth a doniau ar y sgrin. Fodd bynnag, er mwyn i'r BBC gynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, mae'n bwysig ei fod yn ymdrin â'r gwahaniaeth tybiedig rhwng agweddau cynulleidfaoedd at ei didueddrwydd a'i chofnod da o gydymffurfio â'r rheolau darlledu didueddrwydd dyladwy. Bydd angen i'r BBC ddod o hyd i ffyrdd creadigol o ddangos ei hymagwedd a'i hymrwymiad i fod yn ddiduedd. Rydym yn croesawu, a byddwn yn monitro, y mesurau y mae'r BBC wedi'u cymryd i wella agweddau a chanfyddiadau cynulleidfaoedd o'i didueddrwyd dyladwy, yn enwedig wrth ymateb i Adolygiad Serota, megis y Cynllun Gweithredu Didueddrwydd a Safonau Golygyddol. Mae'n rhaid i'r BBC asesu'n drylwyr ac adrodd yn dryloyw ar y camau hyn os yw am gynnal ymddiriedaeth y gynulleidfa.

1.24 Bydd ein penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei phenderfyniadau nas cynhelir ar gwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy yn rhoi mwy o eglurder i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ynghylch sut mae'r BBC yn ymdrin â'r mater hwn, yn helpu i ddangos ymrwymiad y BBC i fod yn ddiduedd ac yn caniatáu goruchwyliaeth fwy effeithiol gan Ofcom fel y rheoleiddiwr annibynnol.

1.25 O ystyried pwysigrwydd cyflwyno didueddrwydd dyladwy'r BBC o ran y system gwynion BBC First, byddwn yn gwneud ymchwil bellach ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy y BBC yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf, ochr yn ochr â'n hymchwil pellach i'r system BBC First.

## Cynigiwn foderneiddio'r Drwydded Weithredu er mwyn ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC yn llawn

1.26 Mae angen i ni sicrhau bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y BBC, a'i fod yn cyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus ac yn

[3] Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2021 sampl ar-lein yn unig. Mae'r arolwg yn gofyn i gynulleidfaoedd teledu, radio a newyddion ar-lein y BBC am eu hagweddau tuag at bob llwyfan ar wahân.

darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Rhoddwyd y Drwydded bresennol ar waith yn 2017 ac i raddau helaeth mae'n cynnwys cwotâu sy'n benodol i wasanaethau teledu a radio unigol y BBC, gyda chydnabyddiaeth gyfyngedig o wasanaethau ar-lein y BBC a datblygiadau technolegol ehangach.

1.27 Mae'n bwysig bod y Drwydded yn caniatáu i'r BBC arloesi ac ymateb i anghenion cynulleidfaoedd sy'n newid ar yr un pryd â sicrhau ei bod yn cyflawni ei chylch gwaith. Yn ein hymgynghoriad ar wahân, rydym yn cynnig sefydlu Trwydded ddigidol aml-lwyfan a fydd yn rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu sut i gyflawni ei rhwymedigaethau ar draws ei gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein ond sy'n cadw cwotâu lle credwn fod y rhain yn bwysig i sicrhau'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus (er enghraifft i ddiogelu newyddion a materion cyfoes, neu i sicrhau natur unigryw). Bydd ein Trwydded hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC fod yn fwy tryloyw yn ei Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol ar sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd.

1.28 Bydd mwy o dryloywder, ynghyd â'n hasesiad annibynnol o berfformiad, sy'n defnyddio ymchwil helaeth i gynulleidfaoedd, data'r diwydiant ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ein galluogi i ddwyn y BBC i gyfrif a chymryd camau cyflym lle bo angen. Os oes gennym bryderon difrifol am gynlluniau neu berfformiad y BBC, byddwn yn yn cymryd camau'n ddi-oed i osod amodau trwydded newydd.

## Dylid newid rheoleiddio cystadleuaeth i roi mwy o hyblygrwydd i Ofcom yn ei brosesau rheoleiddio

1.29 Rydym wedi ystyried a yw'r rheolau cystadleuaeth yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i'r BBC wneud y newidiadau angenrheidiol i'w gwasanaethau a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol. Dros amser mae'r risg y bydd y BBC yn dominyddu ei chystadleuwyr yn debygol o leihau mewn rhai ardaloedd, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn cystadleuaeth fyd-eang. Ond mewn meysydd eraill mae'r BBC yn debygol o barhau i gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth. At hynny, mae rhai newidiadau i wasanaethau'r BBC yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn gwerth cyhoeddus. Lle mae'r risg y bydd y BBC yn effeithio ar gystadleuaeth yn isel a/neu lle mae'r newidiadau'n debygol o fod â gwerth cyhoeddus sylweddol, credwn y dylai'r BBC allu gweithredu'r newidiadau hyn yn gyflym, yn amodol ar oruchwyliaeth reoleiddiol briodol.

1.30 Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud rhai newidiadau i'r Cytundeb er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni gyda'n prosesau rheoleiddio. Er enghraifft, os cytunwn ag asesiadau cystadleuaeth a gwerth cyhoeddus y BBC o newidiadau arfaethedig i wasanaethau, a'i fod wedi ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid ac wedi ystyried eu pryderon, mae'n bosib na fydd angen i Ofcom gynnal asesiad ffurfiol o gystadleuaeth. Rydym hefyd yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen i'n prosesau asesu cystadleuaeth fel eu bod mor effeithlon â phosib.

1.31 Yn ein hymgynghoriad yn yr hydref byddwn yn nodi ein barn ar gystadleuaeth yn y prif sectorau y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt, a'r mathau o effaith y gall newidiadau i wasanaethau'r BBC ei chael er mwyn creu gwerth cyhoeddus arwyddocaol. Bydd hyn yn

rhoi mwy o eglurder i'r BBC a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut rydym yn debygol o ymdrin ag asesiadau yn y dyfodol. Bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi sylwadau a helpu i siapio ein harweiniad ar sut y byddwn yn cynnal asesiadau cystadleuaeth a gwerth cyhoeddus yn y dyfodol.

1.32 Mae ymgysylltu effeithiol rhwng y BBC a'i chystadleuwyr yn alluogwr pwysig i Ofcom gamu'n ôl o asesu newidiadau'r BBC yn ffurfiol neu ymgymryd â phroses fer. Byddwn yn gweithio gyda'r BBC a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu proses ymarferol sy'n rhoi cymhelliant y BBC a'i chystadleuwyr gymryd rhan yn effeithiol yn asesiad cystadleuaeth y BBC. Bydd hyn yn caniatáu i'r BBC wneud newidiadau'n gyflym os nad ydynt yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth, a rhoi hyder i randdeiliaid ac Ofcom fod eu pryderon yn cael eu hystyried.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

**Er mwyn sicrhau bod y broses gwynion BBC First yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd, yn hawdd ei llywio ac yn fwy tryloyw, byddwn yn:**

(1) ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei rhesymeg dros bob cwyn am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei phroses gwynion;

(2) gofyn bod Ofcom yn cael ei hysbysu gan y BBC mewn cam cynnar am achosion posib o dorri amodau golygyddol difrifol ar draws ei chynnwys. Bydd hyn yn ein galluogi i graffu'n well ar sut mae proses gwynion y BBC yn gweithio'n ymarferol ac, os oes angen, ymyrryd yn gynnar i ddiogelu cynulleidfaoedd;

(3) parhau i bwyso ar y BBC i wella hyder y cyhoedd yn ei hymagwedd at ymdrin â didueddrwydd dyladwy, monitro'r broses o weithredu canfyddiadau Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol, a datblygu cysylltiadau agosach â'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol; a

(4) diweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC First a didueddrwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf a chynnal adolygiad pellach o system BBC First cyn diwedd y Siarter bresennol.

**Rydym yn cynnig diweddaru'r Drwydded** Weithredu fel ei bod yn:

(1) gosod gofynion newydd ar wasanaethau ar-lein y BBC;

(2) rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC lle y gall hyn ei alluogi i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well, ond mae'n cadw cwotâu lle mae angen mesurau diogelu penodol, gan gynnwys mewn perthynas â darparu newyddion a materion cyfoes a sicrhau natur unigryw; ac yn

(3) ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi mwy o wybodaeth a gwell gwybodaeth gyda'i Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i'r Cytundeb i roi mwy o hyblygrwydd i Ofcom ynghylch pryd a sut i gynnal asesiad o gystadleuaeth**.

At hynny, yn ein hymgynghoriad yn yr hydref, rydym yn bwriadu cynnig fframwaith cystadleuaeth hyblyg wedi'i dargedu'n well a all addasu wrth i amodau cystadleuol yn y farchnad newid. Mae hyn yn cynnwys:

(1) darparu mwy o eglurder ynghylch ein barn am gystadleuaeth yn y prif sectorau y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt, a sut rydym yn debygol o fynd ati i gynnal asesiadau o gystadleuaeth a gwerth cyhoeddus yn y dyfodol; a

(2) gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ymagwedd ymarferol at ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall y BBC roi ystyriaeth briodol i effeithiau posib ei newidiadau arfaethedig ar gystadleuaeth.

Dim ond crynodeb lefel uchel wedi’i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt, a'r sail resymegol drostynt, yn y ddogfen lawn a'r ymgynghoriadau cysylltiedig.

# 2. Cyd-destun ein hadolygiad

## Mae'n rhaid i Ofcom gynnal adolygiad o sut y mae'r BBC yn cyflawni ei gylch gwaith

2.1 Daeth Ofcom yn rheoleiddiwr allanol annibynnol cyntaf y BBC o dan Siarter a Chytundeb presennol y BBC, a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2017 ac sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi gwahanol rolau a dyletswyddau'r BBC ac Ofcom, gan gynnwys prif swyddogaethau Bwrdd y BBC. Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y sefydliad, tra bod Ofcom yn ei ddwyn i gyfrif am gyflawni ar gyfer pob cynulleidfa.

2.2 Yn benodol, mae'n rhaid i Fwrdd y BBC sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith drwy:

- **Gyflawni'r Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus** – mae hyn yn cynnwys y Bwrdd yn pennu strategaeth mewn perthynas â chomisiynu ac amserlennu rhaglenni, cyllidebau a phenderfyniadau golygyddol. Mae'r BBC yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus yn ei Chynllun Blynyddol, ac yn adrodd ar sut y mae wedi cyflawni hynny yn yr Adroddiad Blynyddol.
- **Cydymffurfio â'r Cod Darlledu** wrth wneud penderfyniadau golygyddol ac asesu ac ymateb i gwynion o dan y system BBC First.
- **Ystyried ei effaith ar gystadleuaeth** – mae hyn yn cynnwys y Bwrdd yn ystyried a yw gwerth cyhoeddus unrhyw newid materol arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.3 Mae'n ofynnol i Ofcom:

- **Sicrhau bod y BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd ac yn dwyn y BBC i gyfrif am gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;** mae hyn yn cynnwys gosod Trwydded Weithredu i sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw. Rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y BBC sy'n asesu ei berfformiad o ran cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus.
- **Rheoleiddio safonau golygyddol a chwynion y BBC** – rydym yn sicrhau bod y BBC (a darlledwyr eraill) yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu ac yn monitro sut mae'r BBC yn ymateb i bryderon cynulleidfaoedd drwy'r system BBC First. Mae hyn yn cynnwys adolygu cwynion sydd wedi'u cyfeirio at Ofcom a medru camu i mewn yn gynharach os oes gennym bryderon difrifol.
- **Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol** – rydym yn adolygu newidiadau perthnasol i wasanaethau'r BBC a, chan ddilyn Prawf Budd y Cyhoedd y BBC, yn cynnal dadansoddiad manwl i ystyried a yw gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gallwn hefyd gynnal adolygiad o gystadleuaeth os ystyriwn fod un o wasanaethau cyhoeddus y BBC yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

2.4 O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n ofynnol i Ofcom *"gynnal a chyhoeddi dau neu fwy o adolygiadau cyfnodol manwl yn ystod cyfnod y Siarter sy'n adolygu i ba raddau y mae'r*

*BBC yn cyflawni ei Chenhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus, ac ymdrin ag unrhyw destunau pryder penodol a nodwyd gan Ofcom"*.[4] Mae'n rhaid i'n hadolygiad cyntaf gael ei gyhoeddi mewn da bryd i lywio Adolygiad Hanner Ffordd trwy Siarter y BBC Llywodraeth y DU.[5]

2.5 Amlinellwyd ein hymagwedd arfaethedig at yr adolygiad hwn yn ein hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021: *Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC*. Bu i ni ddweud y byddai ein hadolygiad yn ystyried a fydd rheoleiddio, o ystyried y newidiadau yn y farchnad, yn parhau i ddwyn y BBC i gyfrif am wylwyr a gwrandawyr. Roedd ymatebwyr yn cytuno'n bennaf â chwmpas ein hadolygiad, ac y dylai gwmpasu meysydd allweddol dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â pherfformiad, cystadleuaeth a safonau golygyddol. Rydym yn trafod sylwadau penodol gan randdeiliaid yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn a'r ymgynghoriadau cysylltiedig.

2.6 Mae ein hadolygiad yn ystyried canfyddiadau perthnasol ein hadolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, sy'n nodi ein hargymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am newid ymysg y PSBs ac ym maes rheoleiddio er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd teledu ar-lein a darlledu yn elwa o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, bod gwasanaethau'n addasu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd sy'n newid a bod PSBs yn dryloyw ynghylch sut y maent yn bwriadu cyflawni eu hamcanion ac adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad. Rydym hefyd wedi galw ar ein profiad o reoleiddio'r BBC, yr ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021, a sgyrsiau dilynol gyda rhanddeiliaid.

2.7 Caiff ein hadolygiad ei gyfeirio gan y rhaglen helaeth o ymchwil a dadansoddi a wnawn i fonitro sector y cyfryngau ac i werthuso pa mor dda y mae'r BBC yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus. Rydym yn defnyddio fframwaith mesur perfformiad sy'n ystyried:

- argaeledd: pa gynnwys y mae'r BBC yn ei ddarparu, gan gynnwys faint y mae'n ei wario;
- defnydd: i ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r BBC;
- effaith: canfyddiadau'r gynulleidfa o'r allbwn; a
- ffactorau cyd-destunol: ffactorau eraill sy'n bwysig i'w nodi yn ein gwerthusiad.

2.8 Daw'r dystiolaeth a ddefnyddiwn ar gyfer hyn o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys metrigau cynulleidfaoedd y diwydiant fel BARB, RAJAR a data trydydd parti arall,[6] a'n rhaglen ymchwil annibynnol ein hunain sy'n tracio ymddygiad ac agweddau cynulleidfaoedd at y BBC a darparwyr cyfryngau eraill, gan gynnwys ymchwil benodol yng nghyd-destun newyddion. At hynny, rydym yn cywain gwybodaeth gan y BBC a darlledwyr

[4] Erthygl 51(1) y Siarter.
[5] Erthygl 51(2) ac Erthygl 57 y Siarter.
[6] BARB yw'r corff diwydiant ar y cyd sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd teledu yn y DU; RAJAR yw'r corff diwydiant ar y cyd sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU. Rydym hefyd yn defnyddio ffynonellau diwydiant eraill fel IPA TouchPoints i ddarparu dealltwriaeth o fesur ar draws cyfryngau.

eraill yn y DU ar amrywiaeth o fetrigau gwahanol (fel eu refeniw, eu gwariant a'u hallbwn ar draws y DU).

2.9 Rydym hefyd yn comisiynu ymchwil wedi'i theilwra â chynulleidfaoedd, fel y bo'n briodol. Er mwyn cyfeirio'r adolygiad hwn, rydym wedi comisiynu ymchwil i:

a) **Ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn hinsawdd bresennol y cyfryngau**: prosiect ymchwil tri cham oedd hwn a fu'n cynnwys ymagweddau ansoddol a meintiol at ddeall yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei ddymuno ac yn ei ddisgwyl gan y BBC. Roedd yn cynnwys sut mae cynulleidfaoedd yn dewis cynnwys ac i ba raddau y mae cynnwys y BBC yn cyflawni yn erbyn ei chenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu.

**b) Ffactorau sy'n llywio canfyddiadau o ddidueddrwydd**: gan adeiladu ar yr ymchwil a gyflawnwyd fel rhan o Adolygiad 2019 o newyddion a materion cyfoes y BBC, comisiynwyd ymchwil ansoddol newydd gennym i ddeall pa mor effeithiol y mae'r BBC yn gwasanaethu pob cynulleidfa yn ei darpariaeth newyddion a materion cyfoes, ar draws pob llwyfan. Mae hyn yn cynnwys archwilio pa ffactorau sy'n llywio canfyddiadau cynulleidfaoedd o fod yn ddiduedd.

c) **Dealltwriaeth y gynulleidfa o broses gwynion BBC First**: ymchwil siopa feintiol, ansoddol a dirgel i ddeall profiadau a safbwyntiau cynulleidfaoedd o BBC First. Nod yr ymarfer siopa dirgel oedd deall gwahanol gamau'r broses a gwirio pa mor dda yr oedd y BBC yn cyrraedd ei amseroedd ymateb targed yn y gwahanol gamau.

2.10 Mae nifer o wahanol gamau ac allbynnau yn ein hadolygiad:

- Yn ein Hadroddiad Blynyddol 2020/21 ar y BBC, cyhoeddwyd asesiad o berfformiad y BBC ar draws cyfnod y Siarter hyd yma, a'r themâu allweddol a nodwyd gennym ers i ni ymgymryd â rheoleiddio'r BBC.
- Mae'r adroddiad hwn, sy'n nodi canfyddiadau ein **hadolygiad o reoleiddio'r BBC yn y dyfodol**, yn canolbwyntio ar y newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i sicrhau bod ein rheoleiddio yn parhau i fod yn effeithiol am weddill cyfnod y Siarter. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth y DU ar gyfer newidiadau i'r Cytundeb a chrynodeb o'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i reoleiddio ar draws ein holl ddyletswyddau.
- **Penderfyniadau ar Ymdrin â Chwynion wedi'u diweddaru** (a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon) sy'n dod i rym ar unwaith.[7]
- **Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Drwydded Weithredu'r BBC** (a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon). Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad a Thrwydded Weithredu newydd yn gynnar yn 2023, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2023.
- Byddwn yn cyhoeddi **ymgynghoriad ar newidiadau i'r fframwaith cystadleuaeth** yn ystod hydref 2022, gyda datganiad yn 2023.

---

[7] Mae ein Penderfyniadau ar Ymdrin â Chwynion yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r BBC ei chyhoeddi, ac i roi i ni am weithrediad y system BBC First. Y cyfnod amser cyntaf y bydd angen i'r BBC adrodd yn erbyn y gofynion newydd ar gyfer cyhoeddi Canfyddiadau Uned Gwynion Gweithredol Cam 2 yw 4 i 17 Gorffennaf 2022.

# Rydym yn asesu a yw ein rheoleiddio yn addas i'r diben

## Nid yw cylch gwaith y BBC wedi newid, ond mae wedi mynd yn fwyfwy heriol i'w gyflwyno

2.11 Ers sefydlu'r Siarter a'r Cytundeb presennol, bu newidiadau arwyddocaol yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys. Bu cynnydd yn nifer y gwasanaethau ffrydio fideo a sain byd-eang sy'n cystadlu â'r BBC (a darlledwyr eraill yn y DU) am amser gwylio a gwrando cynulleidfaoedd. ac yn y defnydd ohonynt.

### Yn gynyddol, mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando fwyfwy ar gynnwys fel y mynnant, ar y ddyfais o'u dewis


2.12 Mae gwelliannau mewn cyflymder band eang a dewis ac argaeledd cynnwys ar-lein wedi sbarduno newidiadau seismig mewn ymddygiad gwylio cynulleidfaoedd. Mae'r duedd hon wedi cyflymu ers dechrau cyfnod y Siarter – gwyliodd 29% o oedolion wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifiad (SVoD) bob wythnos yn 2017 ond erbyn canol 2021 roedd hyn wedi cynyddu i 57%. Dyblodd nifer yr oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau cerddoriaeth wedi'u ffrydio bob wythnos o 23% i 48% dros yr un cyfnod.[8] Yn ychwanegol at ffynonellau cyfryngau traddodiadol, mae amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, o gyfryngau cymdeithasol i lwyfannau gemau ar-lein, yn cystadlu fwyfwy am sylw'r gynulleidfa.

2.13 Y ffordd orau o weld yr her sy'n wynebu holl ddarlledwyr y DU, gan gynnwys y BBC, yw drwy arferion gwylio a gwrando pobl ifanc. Mae gwylio teledu byw neu recordio neu wrando ar radio darlledu bellach yn cynrychioli llai na chwarter amser cyfryngau pobl ifanc 15-24 oed, sydd erbyn hyn yn treulio mwy o amser ar gyfryngau cymdeithasol, yn gwylio fideo ar-alw ac ar-lein, a gwrando ar wasanaethau sain eraill.[9] Wrth ddatblygu eu gwasanaethau ar-lein, mae'n rhaid i ddarlledwyr y DU hefyd gystadlu â phoblogrwydd llwyfannau rhannu fideos a gemau ar-lein. Canfu ymchwil ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Ofcom fod 95% o blant 3-17 oed yn defnyddio llwyfannau rhannu fideo (VSP) fel YouTube neu TikTok, tra bod 58% yn chwarae gemau ar-lein. Roedd hyn yn cymharu â 48% a wyliodd gynnwys drwy wasanaethau darlledu ar-alw fel BBC iPlayer, ITV Hub neu All4.[10]

---

[8] Ffynhonnell: IPA TouchPoints, 2021 w2.
[9] Ffynhonnell: IPA TouchPoints, 2021 w2.
[10] Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau 2021, Ofcom: Arolwg Ymddygiadau ac Agweddau Ar-lein, a'r arolwg Rhieni yn Unig.

**Ffigur 1: Cyfran yr amser a dreulir bob wythnos ar weithgarwch cyfryngau: oedolion 15+ oed o'i gymharu â'r rhai 15-24 oed**




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints 2021 w2*

2.14 Mae cynulleidfaoedd o'r farn bod llawer o ddarparwyr cynnwys erbyn hyn sy'n bodloni ystod eang o ddewisiadau ar draws cynnwys byw, dal i fyny ac ar-alw. Mae gwasanaethau ar-alw yn gynyddol bwysig i gynulleidfaoedd, i raddau helaeth oherwydd cyfleustra, hyblygrwydd a graddfa eu llyfrgelloedd cynnwys. Yn gyffredinol, ystyrir bod gan wasanaethau SVoD swyddogaethau uwch hefyd, gan gynnwys chwilio ac argymhellion. Roedd y cynulleidfaoedd y bu i ni siarad â hwy o'r farn bod y BBC yn ei chael hi'n anodd cystadlu â nifer y teitlau ac ystod ac amrywiaeth eang y cynnwys ar wasanaethau SVoD.[11] Dywedodd dwy ran o bump o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau SVoD y gallant ragweld '*peidio â gwylio teledu darlledu o gwbl*' ymhen pum mlynedd.[12]

2.15 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn teimlo bod rôl o hyd i ddarlledwyr y DU a'r BBC – fel pwynt mynediad 'arferol' ar gyfer gwybodaeth bob dydd fel newyddion, neu ar gyfer chwaraeon a digwyddiadau cenedlaethol megis darllediadau o ddathliadau Jiwbilî'r Frenhines a sioeau adloniant 'a rennir' yr oriau brig (fel *Strictly Come Dancing*). Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi ansawdd ac ystod eang y rhaglenni ar y BBC ond maent am i'r rhaglenni adlewyrchu cefndiroedd amrywiol aelodau'r gynulleidfa a gwahanol ranbarthau'r DU yn well.[13]

## Bu cynnydd mewn cystadleuaeth gan gwmnïau technoleg a chyfryngau byd-eang a ariennir yn dda

2.16 Mae'r twf mewn cystadleuaeth wedi dod yn bennaf gan gwmnïau byd-eang ag adnoddau da fel YouTube, Netflix, ac Amazon. Fel y gwelir yn Ffigur 2 isod, mae mynediad i'r farchnad


[11] Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd y BBC yn hinsawdd bresennol y cyfryngau, 2021.
[12] Ampere Analysis Consumer, oedran: ar-lein 18-64 oed, Ch1 2021, DU. Gwaelodlin: 1,633, y rhai sy'n defnyddio SVoD.
[13] Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd y BBC yn hinsawdd bresennol y cyfryngau, 2021.

a chyrhaeddiad y gwasanaethau hyn yn y DU wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er ein bod wedi gweld tystiolaeth ddiweddar y gallai cyfradd y defnydd ar gyfer rhai o'r gwasanaethau fod yn arafu, o bosib oherwydd y gallai nifer y gwasanaethau tanysgrifio y mae aelwydydd yn barod i'w prynu fod wedi taro'n dirlawn.[14]

2.17 Mae'r gwasanaethau byd-eang hyn yn cael eu hariannu'n dda (yn aml yn cymysgu refeniw tanysgrifio, talu fesul defnydd a hysbysebu) ac mae ganddynt gyllidebau cynnwys gwreiddiol uchel, a/neu lyfrgelloedd mawr o gynnwys sy'n bodoli eisoes. Nid oes gan wasanaethau BVoD y DU yr un cyllidebau byd-eang â'r chwaraewyr hyn, ac nid ydynt gystal â'r darparwyr SVoD mwyaf o ran maint cyffredinol y catalog.[15]

2.18 Mae economi greadigol y DU yn ffynnu'n rhannol o ganlyniad i'r buddsoddiad a gafwyd gan chwaraewyr byd-eang: cyrhaeddodd refeniw rhyngwladol £1.2bn yn 2019, i fyny 30% dros bum mlynedd.[16] Fodd bynnag, mae darlledwyr y DU wedi codi pryderon ynghylch chwyddiant sylweddol yng nghostau cynhyrchu'r DU oherwydd mwy o gystadleuaeth am weithwyr medrus a gofod stiwdio.[17]

**Ffigur 2: Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau Fideo Ar-alw drwy Danysgrifio: 2017-2021**




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints*

[14] BARB Establishment Survey.
[15] Yn ôl data Ampere Analysis ym mis Ebrill 2022, y gwasanaethau BVoD mwyaf oedd BBC iPlayer ac All4, yr oedd y ddau ohonynt yn cynnig gwerth dros 14,000 o oriau o gynnwys. Er bod y rhain yn fwy na chatalogau rhai chwaraewyr rhyngwladol, maent yn brin o Netflix ac Amazon Prime Video, y mae tua 39,000 a 27,000 o oriau ar gael arnynt yn y drefn honno.
[16] Pact, 2021, UK Television Production Survey: Financial Census 2020, t.23. Gostyngodd refeniw cyffredinol yn 2020 oherwydd effaith y pandemig – roedd refeniw rhyngwladol yn £1.1 biliwn.
[17] Gweler y dystiolaeth a gyflwynwyd ym Mhwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi: Public Service Broadcasting: as vital as ever 2019, paragraffau 110-158; Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23 t.40.

# Mae angen i'r BBC foderneiddio er mwyn parhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd

2.19 Mae'n rhaid i holl PSBs y DU, gan gynnwys y BBC, addasu eu modelau busnes a'u gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Mae angen i'r BBC ganolbwyntio ar drawsnewid ei gwasanaethau ar-lein er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa, a pharhau i fod yn berthnasol iddynt, a pharhau i ddarparu ystod o gynnwys a gwasanaethau nodedig a gwreiddiol ar gyfer cynulleidfaoedd y DU. Mae angen iddi hefyd barhau â'i rôl bwysig o gefnogi'r economi greadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

2.20 Yn ein hadolygiad o berfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma, bu i ni nodi bod y BBC, at ei gilydd, wedi cyflawni ei chylch gwaith a'i dibenion. Mae'n parhau i fod yn boblogaidd, gyda chyrhaeddiad cymharol uchel a boddhad cynulleidfaoedd. Mae'n darparu maint sylweddol o raglennu gwreiddiol, gan gynnwys newyddion ac amrywiaeth o gynnwys addysg a dysgu. Addasodd y BBC yn gyflym i ddarparu mwy o gynnwys addysgol yn ystod y pandemig, ac mae'n dod â'r wlad ynghyd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol allweddol fel Penwythnos Mawr Radio 1, Cwpan Pêl-droed y Byd i Fenywod a darllediadau o ddathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Fodd bynnag, nodwyd sawl her i'r BBC:

- mae'n rhaid iddi barhau i esblygu i fod yn berthnasol i bob cynulleidfa – yn enwedig cynulleidfaoedd llai bodlon, ac i feithrin cysylltiadau cryfach â phobl iau;
- mae cyflawni didueddrwydd dyladwy yn parhau i fod yn her gymhleth i'r BBC;
- mae'n rhaid i gynnwys unigryw a gwreiddiol o'r DU sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli gwledydd a rhanbarthau'r DU barhau i fod yn flaenoriaeth i'r BBC; a
- dylai ymgorffori tryloywder ymhellach yn ei ffyrdd o weithio.

2.21 Mae'r BBC yn wynebu cyfyngiadau ariannol. O dan ei setliad diweddar gyda Llywodraeth y DU, bydd ffi'r drwydded yn cael ei chadw ar ei lefel bresennol tan 2024 ac yna bydd yn codi'n unol â chwyddiant (CPI) tan ddiwedd cyfnod y Siarter. Mae'r BBC wedi dweud bod hyn yn creu bwlch ariannu blynyddol o £285m o 2027 ymlaen. At hynny, mae ansicrwydd ynghylch model ariannu'r BBC yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Adolygiad o'r Model Ariannu cyn yr adolygiad nesaf o'r Siarter.

2.22 Ym mis Mai, nododd y BBC ei strategaeth i greu *"sefydliad modern, wedi'i resymoli a arweinir gan ddigidol"* sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf posib o ffi'r drwydded ac sy'n darparu mwy i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys:

- symud symiau sylweddol o arian i raglenni newydd ar gyfer BBC iPlayer y mae'r BBC yn disgwyl y byddant hefyd yn denu buddsoddiad trydydd parti ychwanegol ar y sgrin;
- symud adnoddau lleol tuag at ddigidol, tra'n cadw gwariant yn wastad (gan gynnwys gwella newyddiaduraeth ymchwiliol mewn materion cyfoes lleol);
- gwneud arbedion mewn newyddion darlledu (yn benodol drwy greu un sianel newyddion teledu 24 awr sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd y DU a chynulleidfaoedd rhyngwladol, gyda mwy o gynnwys a rennir) ac ailfuddsoddi'r arbedion mewn newyddion fideo a digidol; a

- buddsoddi hyd at £50m y flwyddyn mewn datblygu cynnyrch ar gyfer ei gwasanaethau ar-lein.

2.23 Bydd strategaeth tymor hwy y BBC hefyd yn cynnwys rhai arbedion effeithlonrwydd i ymdrin â'r diffyg cyllid y mae wedi'i nodi o setliad ffi'r drwydded (mae'n disgwyl colli tua 1,000 o staff dros y blynyddoedd nesaf) ac ymgyrch i geisio buddsoddiad masnachol newydd. Nododd y BBC hefyd ei fod am roi'r gorau i ddarlledu rhai sianelau teledu a radio llinellol llai (gan gynnwys BBC Four, CBBC a BBC Radio 4 Extra) ar ôl yr ychydig flynyddoedd nesaf gyda chynlluniau a chyllidebau manwl i'w nodi yn ei Cynlluniau Blynyddol a'i Hadroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

2.24 Ymrwymodd y BBC hefyd i fuddsoddi mwy mewn rhaglenni o wledydd a rhanbarthau'r DU drwy weithredu ei gynllun *Ar draws y DU*. Bu iddi hefyd nodi ei chynlluniau i ehangu cyfresi a chynnwys archif ar BBC iPlayer, ac i fuddsoddi mewn data amser real sy'n cefnogi twf cynhyrchion a gwasanaethau digidol.

2.25 Yng Nghynllun Blynyddol 2022/23 y BBC dywedodd ei fod yn bwriadu canolbwyntio ar:

- gael mwy o'i gwasanaethau ar-lein (BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan/apiau);
- darparu cynnwys effaith uchel nodedig;
- cryfhau didueddrwydd;
- ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â chynulleidfaoedd; ac
- adeiladu incwm masnachol.[18]

## Mae'n rhaid i reoleiddio alluogi'r BBC i drawsnewid ei gwasanaethau, ac ar yr un pryd, sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd

2.26 Yn ddiweddar, nododd Llywodraeth y DU ei gweledigaeth ar gyfer sector darlledu'r DU mewn Papur Gwyn cyn y Mesur Cyfryngau sydd ar y gweill. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn esbonio bwriad Llywodraeth y DU i weithredu rhai o argymhellion allweddol ein hadolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*. Mae hyn yn cynnwys cyfundrefn amlygrwydd newydd ar gyfer gwasanaethau PSB ar y prif lwyfannau teledu cysylltiedig, cylch gwaith symlach, a mwy o hyblygrwydd i PSBs o ran sut y maent yn cyflawni eu rhwymedigaethau, gan gynnwys drwy eu gwasanaethau ar-lein.

2.27 Amcanion ein Hadolygiad yw sicrhau bod y BBC **yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa** ac yn cefnogi'r economi greadigol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r BBC drawsnewid i fod yn sefydliad digidol modern a datblygu ei gwasanaethau ar-lein fel y gall gyrraedd pob cynulleidfa lle bynnag y bônt a chyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Bydd angen i'r fframwaith rheoleiddio fod yn ddigon hyblyg i gefnogi'r trawsnewid hwn a dwyn y BBC i gyfrif am gyflawni ar draws ei holl wasanaethau.

2.28 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn **agored ac yn dryloyw** wrth esbonio i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud a sut mae'r rhain yn ei helpu i

[18] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, 2022, t.18.

gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys esbonio'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud ar gwynion fel y gall cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid godi pryderon yn hawdd gyda'r BBC a bod yn hyderus bod eu cwynion yn cael eu hystyried yn deg.

2.29 Rydym wedi edrych ar bob maes o'n rheoleiddio ac wedi ystyried a oes angen newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol am weddill cyfnod y Siarter hwn. Y materion allweddol rydym wedi'u nodi gyda'r fframwaith rheoleiddio presennol yw:

- mae angen i'r BBC wneud newidiadau i'w broses gwyno er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio i bob cynulleidfa, a rhaid iddo fod yn fwy tryloyw ynghylch sut y mae'n ystyried pryderon cynulleidfaoedd. Bydd hyn hefyd yn galluogi Ofcom i ddwyn y BBC i gyfrif yn llawn yn erbyn ei safonau golygyddol;
- mae'r diffyg hyblygrwydd yn y Drwydded Weithredu bresennol yn cyfyngu ar allu'r BBC i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws ei gwasanaethau darlledu llinellol ac ar-lein; ac
- er bod y prosesau gystadleuaeth wedi addasu i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon dros Gyfnod y Siarter, mae mwy i'w wneud o hyd er mwyn i'r BBC wneud y newidiadau angenrheidiol i'w wasanaethau'n gyflym, ac ar yr un pryd sicrhau bod cystadleuaeth deg ac effeithiol yn cael ei diogelu.

## Bydd ein Hadolygiad yn cyfeirio Adolygiad Hanner Ffordd trwy Siarter y BBC Llywodraeth y DU

2.30 Cyhoeddodd y Llywodraeth y Cylch Gorchwyl ar gyfer ei Hadolygiad Hanner Ffordd trwy Siarter y BBC ym mis Mai 2022. Mae hyn yn ystyried a yw'r trefniadau llywodraethu a rheoleiddio a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith presennol yn effeithiol o ran galluogi'r BBC i gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus. Bydd hefyd yn edrych ar y dystiolaeth ynghylch sut y gall Ofcom ddwyn y BBC i gyfrif yn effeithiol.

2.31 Disgwylir i Llywodraeth y DU gwblhau ei Hadolygiad o fewn 12 mis, cyn y broses Adolygu'r Siarter a fydd yn dechrau yn 2025. Yn benodol, bydd yn canolbwyntio ar:

- safonau golygyddol a didueddrwydd;
- cwynion – y ffordd y mae'r BBC yn asesu cwynion drwy'r system BBC First;
- llywodraethu masnachol a rheoleiddio is-gwmnïau masnachol y BBC;
- cystadleuaeth ac effaith ar y farchnad;
- amrywiaeth; ac
- thryloywder.

### Yr ydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud rhai newidiadau i'r Cytundeb

2.32 Yn yr adroddiad hwn rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ystyried rhai newidiadau i'r Cytundeb fel rhan o'i Hadolygiad Hanner Ffordd trwy'r Siarter, gan gynnwys:

- Mynnu bod y BBC yn rhoi gwybodaeth i Ofcom am achosion posib o dorri amodau golygyddol difrifol yn gynnar, os nad yw'r BBC yn cytuno i ddarparu'r wybodaeth hon i Ofcom yn wirfoddol.
- Mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â rheolau Ofcom ar adrodd etholaethol ac etholiadol.
- Caniatáu i Ofcom osod y cwotâu ar gyfer rhaglenni a wneir y tu allan i'r M25 sy'n berthnasol i raglenni a gynhyrchir ar gyfer y rhwydwaith a BBC iPlayer.
- Dileu'r gofyniad i Ofcom bennu amodau rheoleiddio ar gyfer rhaglennu nad yw'n newyddion a materion cyfoes yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Addasu'r gofyniad i Ofcom osod cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu, fel y gallwn osod cwota sy'n niwtral o ran gwasanaeth ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol.
- Dileu'r cysylltiad rhwng Prawf Budd y Cyhoedd y BBC ac Asesiad Cystadleuaeth Ofcom o'r BBC, fel y gallwn gymeradwyo'r newid heb gynnal asesiad o gystadleuaeth, os cytunwn â dadansoddiad y BBC a'i bod wedi ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.
- Galluogi Ofcom i gymeradwyo newid i wasanaethau'r BBC gydag amodau gan ddefnyddio asesiad byrrach.
- Newid y diffiniad o newid 'materol' fel nad yw gwasanaethau cyhoeddus newydd yn cael eu hystyried yn faterol yn awtomatig (byddent yn dal i fod yn destun prawf y gallai'r newid/gwasanaeth newydd gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol).

2.33 Rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'r Drwydded Weithredu ac yn bwriadu ymgynghori ar newidiadau i'n dull o reoleiddio cystadleuaeth yn yr hydref. Bydd angen ystyried y prosesau hyn ochr yn ochr â datblygu newidiadau i'r Cytundeb.

## Ystyriaethau ar gyfer cyfnod nesaf y Siarter

2.34 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi nodi rhai meysydd y byddai'n well eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer Siarter nesaf y BBC, ynghyd â'r adolygiad ariannu a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys a ddylai'r BBC fod wedi cryfhau'r gofynion mewn perthynas ag ymrwymo i bartneriaethau i helpu i sicrhau cynaladwyedd hirdymor sector darlledu'r DU ac a yw'r lefel bresennol o wahaniad rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol yn parhau'n briodol.

2.35 Yn ein hadolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, bu i ni ddweud y gall partneriaethau strategol helpu darlledwyr i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac ymgysylltu â grwpiau anoddach eu cyrraedd, cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau. Bu i ni nodi bod rhanddeiliaid yn cefnogi rhannu mwy o ddata (gan gynnwys data ar gynulleidfaoedd) a allai roi mewnwelediad ychwanegol ar gyfer penderfyniadau comisiynu a golygyddol, a gwneud penderfyniadau masnachol. Awgrymwyd y gallai ymagweddau ar y cyd at ddosbarthu, a'r fath chwaraewr ar-alw sy'n cyfuno cynnwys gan ddarlledwyr y DU, fod o fudd i gynulleidfaoedd.[19]

[19] Ofcom, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, 2021, tt.57-59.

2.36 O dan ei Dyletswyddau Cyffredinol yn y Siarter, mae gan y BBC rwymedigaethau o ran ymrwymo i bartneriaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio a cheisio partneriaethau mewn perthynas â'r economi greadigol ac ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU, a hyrwyddo arloesedd ac ymchwil a datblygu technolegol, pan fydd hynny er budd y cyhoedd.[20] Mae'r Cytundeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddefnyddio partneriaethau ar gyfer hyfforddi'r diwydiant, ac o dan Ddiben Cyhoeddus 2, dylai'r BBC annog pobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy bartneriaethau â sefydliadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol.[21]

2.37 Mae'r BBC yn ymgymryd â phartneriaethau gyda sefydliadau eraill yn y DU. Er enghraifft, mae gan y BBC bartneriaeth strategol hirdymor gyda Sky i roi mwy o amlygrwydd i frandiau a chynnwys y BBC ar gynnyrch teledu Sky.[22] Mae hefyd yn rhannu hawliau chwaraeon ar gyfer digwyddiadau chwaraeon arwyddocaol fel Cwpan Pêl-droed y Byd[23] ac yn cydweithio â sefydliadau diwylliannol fel Screen Scotland, Northern Ireland Screen a Cymru Creadigol, gan gefnogi'r economi greadigol ehangach.[24] Yn ogystal, mae'r BBC yn bartneriaid gyda nifer o sefydliadau i gyflwyno cynnwys pwysig, megis y Royal Shakespeare Company, yr Amgueddfa Wyddoniaeth a Llyfrau Puffin.[25]

2.38 Fel rhan o'r broses nesaf o adnewyddu'r Siarter, credwn y gallai Llywodraeth y DU ystyried a allai partneriaethau strategol rhwng y BBC a sefydliadau eraill yn y DU fod o fudd i gynaladwyedd sector darlledu'r DU yn y dyfodol. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi dweud wrthym nad yw'r BBC yn dryloyw o ran y ffordd y mae'n ymgysylltu â phartneriaethau[26] ac argymhellodd Wireless y dylai fod gan y BBC ofyniad newydd i ymgorffori partneriaethau diwydiant.[27] Rydym hefyd wedi dweud y dylai'r BBC ystyried ymagwedd fwy uchelgeisiol ac agored at ymdrin â phartneriaethau strategol gwirioneddol.[28] Er enghraifft, un ffordd y gallai'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach efallai yw ffurfio partneriaethau strategol gyda sefydliadau newyddion ar draws y DU.

2.39 Credwn hefyd y dylai Llywodraeth y DU ystyried a yw'r lefel bresennol o wahaniad rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol yn parhau'n briodol. O dan yr adolygiad hwn, gofynnwyd pa rôl y dylai'r gwasanaeth cyhoeddus ei chwarae wrth weithredu'r gweithgareddau masnachol. Mae'n bosib y bydd hyn yn mynd yn bwysicach o ystyried ffocws y BBC ar adeiladu ei incwm masnachol. Ni wnaeth y rhan fwyaf o randdeiliaid ymateb i'r cwestiwn hwn, gan y byddai'n well ganddynt aros nes i'n hadolygiad o BBC Studios ddod i ben.

2.40 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi o dan ba amgylchiadau y gall y BBC ymgymryd â gweithgareddau masnachol a graddau'r gwahaniad rhyngddynt â'r gwasanaeth cyhoeddus

[20] Erthyglau 13, 14 a 15 Siarter y BBC.
[21] Atodlen 3 (13) (3) y Cytundeb ac Adran 1 y Drwydded Weithredu.
[22] Sky, 14 Medi 2021, BBC and Sky extend long-term strategic partnership [cyrchwyd 14/06/2022].
[23] BBC, 6 Ebrill 2022, BBC and ITV announce World Cup 2022 coverage schedule [cyrchwyd 14/06/2022].
[24] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21, t.64
[25] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21, t.22
[26] Ymateb MG Alba i'r ymgynghoriad t.1; Ymateb Pact i'r ymgynghoriad t.3.
[27] Ymateb Wireless i'r ymgynghoriad t.15.
[28] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21 t.41.

a ariennir gan ffi'r drwydded. Credwn mai'r amser gorau i ystyried a yw'r ymagwedd hon yn briodol o hyd yw cyn cyfnod nesaf y Siarter, ochr yn ochr â chwestiynau fel sut y caiff y gwasanaeth cyhoeddus ei ariannu.

## Strwythur ein hadroddiad

2.41 Yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi canfyddiadau allweddol ein hadolygiad a'n hargymhellion i Lywodraeth y DU ar gyfer newidiadau i'r Cytundeb Fframwaith.

- Mae Adran 3 yn trafod themâu trawsbynciol pwysig ein hadolygiad – tryloywder, amrywiaeth a phartneriaethau.
- Mae Adran 4 yn nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i wella effeithiolrwydd a goruchwyliaeth y system gwynion BBC First.
- Mae Adran 5 yn crynhoi ein cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd y BBC ac yn argymell rhai newidiadau i'r Cytundeb.
- Mae Adran 6 yn crynhoi'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i reoleiddio cystadleuaeth ac argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cytundeb.

2.42 At hynny, rydym wedi cyhoedd'r ymchwil a gomisiynwyd gennym ar gyfer yr Adolygiad hwn fel atodiadau:

- disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn amgylchedd presennol y cyfryngau;
- profiad y gynulleidfa o'r broses gwynion BBC First; ac
- agweddau cynulleidfaoedd tuag at ddidueddrwydd dyladwy gwasanaethau'r BBC.

2.43 Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar newidiadau i'r Drwydded Weithredu, a Phenderfyniadau Cwynion wedi'u diweddaru. Rydym hefyd wedi cyhoeddi heddiw ganfyddiadau ein hadolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a gwasanaethau cyhoeddus y BBC (Adolygiad o BBC Studios). Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ein newidiadau arfaethedig i'r fframwaith cystadleuaeth yn yr hydref.[29]

[29] Lle y bo'n berthnasol, rydym wedi ystyried goblygiadau ein cynigion o ran cydraddoldeb yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Mae ein hasesiadau wedi'u nodi ar wahân ochr yn ochr â'n cynigion penodol ar newidiadau i'r Drwydded Weithredu a'n canfyddiadau ar BBC Studios.

# 3. Tryloywder

## Mae ein cynigion ar gyfer newidiadau rheoleiddio'n ddibynnol ar y BBC yn cynyddu ei thryloywder

### Yr ydym wedi amlygu'r angen i'r BBC fod yn fwy agored a thryloyw yn gyson

3.1 Yn ôl y Siarter, mae'n ofynnol i'r BBC gadw at safonau uchel o fod yn agored ac anelu at sicrhau'r tryloywder a'r atebolrwydd mwyaf sy'n bosib. Fel corff a ariennir yn gyhoeddus, mae'n hanfodol bod y BBC yn agored ynghylch sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, ac yn gweithredu mewn ffordd sydd o fudd i'r sector cyfan. Er mwyn i'r BBC gynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth y cyhoedd, mae angen iddi nodi sut y mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd ac ymateb i'w pryderon.

3.2 Rydym wedi codi materion yn gyson am dryloywder y BBC, gan gynnwys sut mae'n mynegi ei chynlluniau ar gyfer newidiadau i'w gwasanaethau, sut mae'n adrodd ar berfformiad a sut mae'n gwneud penderfyniadau ar safonau cynnwys ac ymdrin â chwynion (yn enwedig o ran didueddrwydd dyladwy). At hynny, nododd Adolygiad Serota, a gomisiynwyd gan y BBC, yn benodol bwysigrwydd gwella tryloywder gweithrediadau'r BBC yn gyffredinol, gan nodi *"bod yn rhaid i'r BBC barhau i chwilio am gyfleoedd pellach i wella tryloywder ymhellach fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus mewn cymdeithas sy'n gynyddol agored*."

3.3 Rydym wedi gweld rhai gwelliannau o ran tryloywder y BBC dros gyfnod y Siarter. Er enghraifft, cysylltodd y BBC berfformiad yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021 yn ôl â blaenoriaethau strategol y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Rydym hefyd wedi gweld gwell adrodd ar iPlayer a Sounds, er bod angen mesur gwasanaethau ar-lein yn fwy effeithiol o hyd. Mae'r BBC hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau fesul cam o ran esbonio'n gyhoeddus sut y mae'n ymdrin â chwynion, ond mae mwy iddi ei wneud i gadw ymddiriedaeth cynulleidfaoedd.

3.4 Yn ddiweddar, cyhoeddodd y BBC ei strategaeth hirdymor a fu'n ddefnyddiol wrth nodi ei chynlluniau trosgynnol a'i chynigion manwl ar gyfer ei thrawsnewidiad digidol.[30] Roedd yn cynnwys gwybodaeth am ba wasanaethau sy'n debygol o gael eu heffeithio yn y dyfodol agos – er enghraifft mae'n debygol y bydd darlledu BBC Four, CBBC a BBC Radio 4 Extra yn dod i ben ar ôl y blynyddoedd nesaf. Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i ddarparu cynlluniau manylach.

3.5 Yn ein hymgynghoriad, gwnaethom nodi pwysigrwydd sicrhau bod y BBC yn agored iawn o ystyried ei fodel ariannu unigryw, a bu i ni ddweud y byddem yn defnyddio'r adolygiad hwn i weithio gyda'r BBC a rhanddeiliaid i wella tryloywder ar draws holl weithgareddau'r BBC. Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd yr ymatebion i'n hymgynghoriad a gwybodaeth o'n corff presennol o dystiolaeth sy'n ymwneud â thryloywder y BBC ar draws holl feysydd ein rheoleiddio. Rydym yn nodi sut mae ein cynigion i wella tryloywder mewn safonau

[30] BBC, 26 Mai 2022, BBC's Plan to deliver a digital-first BBC, [cyrchwyd 14/06/2022].

cynnwys, perfformiad a chystadleuaeth yn cyd-fynd â'i gilydd i sicrhau y bydd y BBC yn fwy agored a thryloyw yn y dyfodol. Nodir manylion ein cynigion yn Adrannau 4 i 6.

## Mae angen i'r BBC fod yn fwy agored a thryloyw ynghylch y modd y mae'n ystyried pryderon cynulleidfaoedd

3.6 Mae'n hanfodol bod y BBC yn glir wrth esbonio i gynulleidfaoedd sut y mae'n ymdrin â'u cwynion ac yn gwneud penderfyniadau amdanynt fel y gall gadw eu hymddiriedaeth. Mae BBC First yn rhoi mantais i'r BBC dros ddarlledwyr eraill; gall ymateb i gwynion a'u datrys cyn iddynt gael eu hesgoli i Ofcom. Er nad yw achwynwyr efallai'n hapus am ganlyniad penderfyniadau'r BBC, bydd mwy o dryloywder ynghylch ei rhesymeg yn rhoi hyder i gynulleidfaoedd bod eu cwynion yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Yn ogystal, bydd cyhoeddi mwy o'i phenderfyniadau yn rhoi sicrwydd i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn y diwydiant fod y BBC yn gweithredu'n briodol o dan y system BBC First.

3.7 Dros gyfnod y Siarter rydym wedi gwneud sawl newid i Benderfyniadau Trin Cwynion y BBC er mwyn gwella'r ffordd y mae'r system yn gweithio ac i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi mwy o wybodaeth am ei phenderfyniadau golygyddol a'i hasesiad o gwynion. Mae hyn yn cynnwys newidiadau a wnaed ym mis Gorffennaf 2020, i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi mwy o wybodaeth am ei phenderfyniadau ar gwynion nas cynhelir.[31]

3.8 Mae'r BBC wedi cydnabod bod yn rhaid iddi wneud mwy i gynnal ymddiriedaeth y gynulleidfa yn ei phrosesau gwneud penderfyniadau a chwynion golygyddol, gan gynnwys yn ei hymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021, i Adolygiad Serota ac yn ei Chynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol dilynol. Galwodd Adolygiad Serota am "*lai o naws amddiffynnol a mwy o dryloywder yn y ffordd y mae'r BBC yn ymateb i'r byd y tu allan*", gan wneud argymhellion penodol ar ymdrin â chwynion – gan gynnwys y dylai'r BBC gyhoeddi, gyda rhesymu digonol, ganfyddiadau unrhyw ymchwiliadau i achosion difrifol o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC.[32] O ganlyniad i Adolygiad Serota, mae'r BBC yn diweddaru ei Fframwaith Cwynion er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ynghylch rôl gyffredinol y Cyfarwyddwr Cyffredinol mewn ymchwiliadau safonau golygyddol.

3.9 Fel y nodir yn Adran 4, rydym wedi diwygio ein Penderfyniadau ar Ymdrin â Chwynion i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei rhesymeg y tu ôl i bob cwyn y mae'n penderfynu peidio â'i chynnal, y rhai sy'n cyrraedd Cam 2 ei phroses gwynion sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy (gan gynnwys materion etholiad a refferendwm), a lle mae mwy na 100 o gwynion ar fater yng Nghyfnod 1a. Credwn y bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid ac Ofcom o broses ymdrin â chwynion a gwneud penderfyniadau'r BBC a sicrwydd ychwanegol ei fod yn dod i benderfyniadau priodol.

[31] Ceir rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd ei hangen arnom gan y BBC yn Atodiad 2 o'r Penderfyniadau ar Gwynion (2020)

[32] BBC, 2021, The Serota Review, tt.2, 26.

3.10 Mae hefyd yn bwysig bod unrhyw achosion posib o dorri amodau golygyddol difrifol ar draws cynnwys y BBC yn fwy tryloyw mewn cam cynnar. Bydd hyn yn ein galluogi i graffu'n well ar sut mae proses gwynion y BBC yn gweithio'n ymarferol ac, os oes angen, ymyrryd yn gynnar i ddiogelu cynulleidfaoedd. Mae hefyd yn cydweddu â'r rhybudd cynnar o faterion yn ystod cyfnodau etholiad a refferendwm y mae'r BBC eisoes wedi cytuno i'w ddarparu i Ofcom. Os nad yw'r BBC yn cytuno â'n cais yn wirfoddol, byddwn yn argymell bod Llywodraeth y DU yn newid y Cytundeb er mwyn i Ofcom ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu'r wybodaeth hon.

## Mae tryloywder ychwanegol yn elfen hanfodol o'n newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu a rheoleiddio cystadleuaeth

3.11 Yn ein hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021, gwnaethom bwysleisio pa mor bwysig y mae i'r BBC fod yn agored ac yn glir ynghylch ei newidiadau arfaethedig i wasanaethau a sut mae'r rhain yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ac yn helpu i gyflawni ei chylch gwaith. Wrth ymateb i'n hymgynghoriad, cytunodd rhanddeiliaid fod angen mwy o dryloywder ac ymgysylltiad â'r BBC.[33]

### Mae angen i'r BBC nodi gyda'i Chynllun Blynyddol sut y mae'n bwriadu cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, ac adrodd yn erbyn sut y mae wedi cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn ei Hadroddiad Blynyddol

3.12 Roedd ymatebwyr yn pryderu nad oedd Cynllun Blynyddol y BBC yn glir ynghylch newidiadau arfaethedig i'w gwasanaethau, ac nad oedd y manylion a ddarparwyd yn ddigonol iddynt ddeall sut yr oedd y newidiadau'n debygol o effeithio ar eu busnes.[34] Er enghraifft, dywedodd ITV fod Cynllun Blynyddol y BBC yn canolbwyntio ar "*fentrau pennawd yn hytrach na'i chynlluniau mwy manwl ar gyfer cyflawni, lle y gellir cuddio llawer o'r effaith ar y farchnad*". Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd o'r farn y dylai Adroddiad Blynyddol y BBC fod yn fanylach mewn rhai meysydd.[35]

3.13 Mae ein cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd yn gofyn am fwy o dryloywder gan y BBC ynghylch sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Fel y nodir yn Adran 5, lle rydym yn bwriadu dileu cwotâu, bydd y Drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi gwybodaeth benodol gyda'i Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol, gan gynnwys ei chynlluniau i ddarparu lefel benodol o allbwn. Bydd y Drwydded hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi a rhoi rhesymau dros unrhyw newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud a allai effeithio ar gyflawni amodau ei Thrwydded, ac adrodd ar unrhyw wahaniaethau i'w chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Os oes gennym bryderon y gallai ei chynlluniau neu unrhyw newidiadau gael effaith andwyol ar y modd y mae'r BBC yn cyflawni ei amodau

[33] Ymateb Pact i'r ymgynghoriad t.3; Ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad t.1; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad tt.10, 43-46.
[34] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad t.6; Ymateb Pact i'r ymgynghoriad t.5; Ymateb Professional Publishers Association i'r ymgynghoriad t.3.
[35] Ymateb Writers' Guild of Great Britain i'r ymgynghoriad t.3; Ymateb Campaign for Regional Broadcasting Midlands i'r ymgynghoriad t.6; Ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad t.3.

Trwydded neu'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, byddwn yn camu i mewn i sicrhau nad yw cynulleidfaoedd ar eu colled.

3.14 Fel y pwysleisiwyd gan randdeiliaid, byddai mwy o fanylion yng nghynigion y BBC hefyd yn caniatáu i gystadleuwyr y BBC ystyried yr effaith y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC yn ei chael ar eu busnesau. Disgwyliwn y bydd mwy o dryloywder yn caniatáu i'r BBC a rhanddeiliaid gael deialog wirioneddol am yr effaith gystadleuol, y gall y BBC wedyn ei hystyried wrth iddo gwblhau ei gynlluniau. Bydd hyn yn helpu i gyfeirio asesiad y BBC o ba un a allai ei newidiadau arfaethedig gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

3.15 Bydd hefyd yn ofynnol i'r BBC adrodd yn erbyn sut y mae wedi cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn ei Hadroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn deall yn well sut mae'r BBC wedi cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus a gallwn ei ddwyn i gyfrif yn effeithiol.

### Mae'n rhaid i'r BBC hefyd gael proses glir a chyson ar gyfer cyhoeddi newidiadau y tu allan i broses y Cynllun Blynyddol

3.16 Bydd angen i'r BBC wneud newidiadau mynych i'w wasanaethau fel y gall barhau i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd. Mae'n debygol y bydd angen gweithredu rhai o'r newidiadau hyn y tu allan i broses y Cynllun Blynyddol. Felly, mae'n bwysig bod y newidiadau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn eu gweithredu, fel y gall cynulleidfaoedd, cystadleuwyr ac Ofcom godi unrhyw bryderon. Dylid cyhoeddi'r newidiadau hyn mewn ffordd sy'n rhoi digon o amlygrwydd i'r newid; er enghraifft, gellid eu cyhoeddi ar ran benodol o wefan y BBC fel bod rhanddeiliaid yn cael digon o gyfle i godi unrhyw gwestiynau. Mae gan y BBC eisoes broses glir ac effeithlon i hysbysu Ofcom am newidiadau arfaethedig i'w gwasanaethau.

### Mae angen ymgysylltu effeithiol rhwng y BBC a'i chystadleuwyr

3.17 Mae ymgysylltu effeithiol rhwng y BBC a rhanddeiliaid yn bwysig fel y gall y BBC ddeall yr effaith bosib y gallai ei gweithgareddau ei chael ar gystadleuaeth, ac os oes angen, i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol drwy ddiwygio cynlluniau ar gyfer newidiadau i'w gwasanaethau.

3.18 Cododd sawl rhanddeiliad bryderon am y ffordd y mae'r BBC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar hyn o bryd wrth asesu sut y gallai newidiadau i'w gwasanaethau effeithio ar gystadleuaeth. Er enghraifft, yn ei ymateb i'n hymgynghoriad nododd Cyfarwyddwyr y DU "*nad yw'r BBC bob amser yn dryloyw ar ddechrau PIT y BBC o ran rhannu mwy o fanylion am y newidiadau neu ddarparu data effaith ar gyfer asesu, fel y gall rhanddeiliaid lunio barn wybodus ar yr effeithiau*".[36] Dywedodd Pact y bu ymgysylltu â'r BBC yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn "*llai na thryloyw*" a dywedodd yr NMA mai tryloywder ac

[36] Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad tt.2-3, gweler hefyd ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad tt.1-4; Ymateb Professional Publishers Association i'r ymgynghoriad t.3.

ymgysylltu yw'r meysydd lle mae'r BBC "*wedi bod yn wael yn gyson*".[37] Roedd rhanddeiliaid hefyd yn pryderu nad oes tryloywder i'r farchnad ynghylch newidiadau nad ydynt yn berthnasol ym marn y BBC.[38]

3.19 Fel y nodir yn Adran 6, mae gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn elfen bwysig o'n newidiadau arfaethedig i reoleiddio cystadleuaeth. Os yw'r BBC yn dryloyw ac yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, bydd yn ein helpu i fabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg at ymdrin â'n rôl ein hunain wrth asesu effaith y BBC. Ar yr un pryd, mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn deialog agored a chynhyrchiol gyda'r BBC, gan ddarparu digon o resymu a thystiolaeth i gyfiawnhau unrhyw bryderon.

3.20 Byddwn yn gweithio gyda'r BBC a rhanddeiliaid eraill dros y misoedd nesaf i ddeall sut y gallai ymgysylltu rhwng y BBC a'i chystadleuwyr weithio'n well yn ymarferol, fel y gallwn nodi disgwyliadau clir ar ymgysylltu fel rhan o ystyriaeth y BBC o fateroldeb yn ein harweiniad.[39]

---

[37] Ymateb Pact i'r ymgynghoriad t.3; Ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad t.1.

[38] Er enghraifft, awgrymodd Radiocentre y dylai'r BBC ddatgelu pob asesiad perthnasolrwydd, cael rhwymedigaethau 'ymgynghori pwrpasol' clir sy'n cynnwys yr wybodaeth y mae'n rhaid iddi ei darparu i randdeiliaid, a bod Profion Budd y Cyhoedd ar gyfer newidiadau penodol yn orfodol (megis lansio gwasanaethau radio newydd). Gweler hefyd ymateb Teledwyr Annibynnol Cymru i'r ymgynghoriad t.2; Ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad t.4; Ymateb Professional Publishers Association i'r ymgynghoriad t.4.

[39] Ofcom, 2017. Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities: Ofcom's procedures and guidance.

# 4. Safonau a diogelu cynulleidfaoedd – gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd y BBC

**Er mwyn sicrhau bod y broses gwynion BBC First yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd, a'i bod yn hawdd ei llywio ac yn fwy tryloyw, byddwn yn:**

(1) ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei rhesymeg dros bob cwyn am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei phroses gwynion;

(2) gofyn bod Ofcom yn cael ei hysbysu gan y BBC mewn cam cynnar am achosion posib o dorri amodau golygyddol difrifol ar draws ei chynnwys. Bydd hyn yn ein galluogi i graffu'n well ar sut mae proses gwynion y BBC yn gweithio'n ymarferol ac, os oes angen, ymyrryd yn gynnar i ddiogelu cynulleidfaoedd;

(3) parhau i bwyso ar y BBC i wella hyder y cyhoedd yn ei hymagwedd at ymdrin â didueddrwydd dyladwy, monitro'r broses o weithredu canfyddiadau Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol, a datblygu cysylltiadau agosach â'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol;

(4) diweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC First a didueddrwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf a chynnal adolygiad pellach o system BBC First cyn diwedd y Siarter bresennol.

## Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i ddiogelu cynulleidfaoedd a chynnal safonau o ran cynnwys

4.1 Mae gan Ofcom rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus ar wasanaethau teledu, radio ac ar-alw. Rydym yn gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarlledwyr a reoleiddir gennym, gan gynnwys y BBC, gydymffurfio â'n Cod Darlledu (y Cod).[40]

4.2 Rydym yn gyfrifol am reoleiddio pob maes o safonau cynnwys y BBC,[41] gan gynnwys cywirdeb dyladwy newyddion a didueddrwydd dyladwy newyddion a materion cyfoes. O dan y Cytundeb, rydym hefyd yn gosod gweithdrefnau i ymdrin â chwynion a gyfeiriwyd atom am raglenni teledu, radio ac ar-alwad y BBC, a'u datrys.

4.3 Mae'r BBC hefyd yn cyhoeddi ei Chanllawiau Golygyddol ei hun. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r Cod, ond yn wahanol mewn rhai meysydd, gan gynnwys bod yn fwy eang o

[40] Mae Siarter a Chytundeb y BBC hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddwyn y BBC i gyfrif yn erbyn y Cod Darlledu.
[41] Ym mis Mai 2017, ymrwymodd Ofcom a'r BBC i drefniant lle gall Ofcom ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a yw'r BBC wedi dilyn Canllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei deunydd ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn cynnwys testun, delweddau, fideo a chynnwys sain ar wefan ac apiau'r BBC. Nid yw'n ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC.

ran cynnal didueddrwydd dyladwy.[42] Mae'r BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'w holl gynnwys gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol.

4.4 Yr adolygiad hwn yw ein cyfle cyntaf, ers ymgymryd â rheoleiddio'r BBC, i ystyried y ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â chwynion gan gynulleidfaoedd ac yn cydymffurfio â'r Cod. Mae hyn yn amserol o ystyried y craffu cyhoeddus cynyddol ar benderfyniadau golygyddol y BBC o ganlyniad i gyhoeddi Arolygon Dyson a Serota[43] a Chynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol dilynol y BBC ei hun.

4.5 Er mwyn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, mae'n bwysig bod system gwynion y BBC:

- yn glir ac yn syml, fel y gall talwyr ffi'r drwydded gwyno'n hawdd am rywbeth y maent wedi'i weld, ei glywed neu ei ddarllen;
- yn dryloyw, fel bod gan gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill hyder yn system gwynion y BBC a'u bod yn cael sicrwydd y bydd cwynion yn cael eu hystyried yn deg a bod y BBC yn gweithredu'n briodol; ac
- yn rhoi'r wybodaeth briodol i Ofcom fel y gallwn gael digon o oruchwyliaeth i ddal y BBC i safonau uchel, yn gyson â darlledwyr eraill.

## Mae BBC First yn cydnabod y berthynas uniongyrchol sydd gan y BBC â thalwyr ffi'r drwydded

4.6 Fel arfer, mae'n rhaid i gwynion am gynnwys a rhaglennu'r BBC gael eu gwneud i'r BBC yn gyntaf.[44] Sefydlwyd y system gwynion 'BBC First' hon, a nodwyd gan Senedd y DU yn Siarter a Chytundeb y BBC, i ganiatáu i'r BBC fod yn agos at ei chynulleidfaoedd a'u pryderon. Mae ymchwil i gynulleidfaoedd yn dangos bod talwyr ffi'r drwydded yn parhau i fod ag ymdeimlad cryf o berchnogaeth ar y BBC; mae'r system gwynion yn rhoi cyfle iddi gynnal y berthynas uniongyrchol hon â'i chynulleidfaoedd.[45] Mae'n arf pwysig i'r BBC adeiladu a chynnal ymddiriedaeth gyda thalwyr ffi'r drwydded.

4.7 Mae Ffigur 3 isod yn dangos sut mae BBC First yn gweithio'n ymarferol. Mae tri cham:


- Cam 1a – mae achwynwyr yn derbyn ymateb cychwynnol gan Wasanaethau Cynulleidfa.
- Cam 1b – os yw'r achwynydd yn anhapus â'r ymateb, gall esgoli ei bryderon a chael ymateb gan un o reolwyr y BBC neu aelod o'r tîm golygyddol.
- Cam 2 – os ydynt yn anfodlon o hyd ar yr ymateb, gallant esgoli'r gŵyn eto i'w hystyried gan Uned Cwynion Gweithredol (ECU) y BBC.[46]

---

[42] Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn gofyn am ddidueddrwydd dyladwy ar draws ei holl allbwn, tra bod rheolau Ofcom ar ddidueddrwydd dyladwy yn berthnasol yn bennaf i gynnwys newyddion a materion cyfoes.
[43] Yn dilyn ymchwiliadau i gyfweliad Panorama ym 1995 a gynhaliwyd gan Martin Bashir gyda Diana, Tywysoges Cymru.
[44] Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion Tegwch a Phreifatrwydd, y gellir eu gwneud yn uniongyrchol i Ofcom.
[45] Er enghraifft, ym mhob cam o'r broses BBC First, mae'r BBC yn darparu ymatebion wedi'u teilwra'n briodol i achwynwyr.
[46] Mae'r ECU yn gyfrifol am ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr/darparwyr cynnwys y rhaglen.

4.8 Os bydd achwynwyr yn parhau i fod yn anfodlon ar benderfyniad terfynol y BBC, gallant gyfeirio'r mater at Ofcom.[47] Rydym yn monitro pob penderfyniad a gyhoeddir gan ECU y BBC i benderfynu a oes angen unrhyw gamau rheoleiddio pellach (waeth p'un a ydym yn derbyn cwyn wirioneddol ar yr achos hwnnw ai beidio). Mae gennym hefyd y pŵer i gamu i mewn ac ymyrryd mewn cam cynharach, o dan amgylchiadau eithriadol, neu i lansio ymchwiliad yn absenoldeb cwyn os credwn ei bod yn briodol gwneud hynny.[48]

**Ffigur 3: Mae BBC First yn broses aml-gam a arweinir gan achwynwyr:**




## Mae'n bwysig bod BBC First yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd

4.9 Mae BBC First yn rhoi mantais unigryw a materol i'r BBC dros ddarlledwyr eraill gan ei fod yn rhoi cyfle i'r BBC ddatrys cwynion cyn iddynt gael eu hesgoli i Ofcom. Fel rheoleiddiwr annibynnol y BBC, mae angen i Ofcom fod yn hyderus: bod y system hon yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd ac yn hawdd ei defnyddio, a bod y BBC yn gwneud penderfyniadau priodol mewn ffordd dryloyw. Felly, rydym wedi gwneud gwaith ymchwil i ddeall profiadau'r rhai sy'n cwyno i'r BBC a sut mae'r rhain yn cymharu â'u profiadau o gwyno i sefydliadau mewn diwydiannau eraill.

4.10 Defnyddiodd yr ymchwil gymysgedd o ymchwil feintiol ac ansoddol:

- Roedd cam meintiol yr ymchwil yn cynnwys arolwg o dros 2,000 o ymatebwyr gan gynnwys y rhai a oedd wedi cwyno'n uniongyrchol i'r BBC dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Ategwyd hyn gan 16 o gyfweliadau manwl gyda chyfranogwyr wedi'u nodi a'u recriwtio o'r arolwg meintiol, ac roedd 11 ohonynt gyda phobl a ddywedodd eu bod wedi cwyno

[47] Gall achwynwyr hefyd ddod i Ofcom os ydynt o'r farn, ar ôl i'r BBC ddatrys cwyn y gallai gosod sancsiwn fod yn briodol, neu os yw'r BBC wedi methu â datrys cwyn o fewn y cyfnod amser a nodir yn ei gweithdrefnau.
[48] Mae BBC First hefyd yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC (gweler troednodyn 2). Fodd bynnag, yn wahanol i'n rôl o reoleiddio safonau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw, nid oes gan Ofcom unrhyw bwerau gorfodi ar gyfer deunyddiau ar-lein y BBC.

i'r BBC yn flaenorol. Defnyddiwyd y cam hwn i ddeall, yn fanylach, brofiad penodol nifer fach o achwynwyr o'r broses gwynion a'u boddhad â'r broses a'r canlyniad.

- Bu i ni hefyd gynnal ymarfer siopa dirgel, lle cyflwynodd 50 o 'siopwyr dirgel' senario cwynion (a ddatblygwyd gan Ofcom) drwy system gwynion y BBC. Bu i'r cam hwn dracio ac arolygu profiadau'r siopwyr dirgel ar bob cam o broses y BBC.

4.11 Rydym wedi ystyried canfyddiadau'r ymchwil yn ei chyfanrwydd. Darparodd y canfyddiadau ansoddol a siopa dirgel wybodaeth gyd-destunol gyfoethog ac astudiaethau achos a helpodd i ddangos themâu a ddeilliodd o'r arolwg meintiol.

4.12 Canolbwyntiwyd ar brofiad achwynwyr o lywio BBC First, o ystyried pwysigrwydd gallu cynulleidfaoedd i fedru cwyno'n hwylus i'r BBC. Ni wnaethom edrych ar foddhad cynulleidfaoedd â chanlyniad cwyn, gan ein bod yn ymwybodol na fydd cwynion y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cwyno i'r BBC yn cael eu cynnal. Mae'n hanfodol bod gan y BBC y rhyddid golygyddol i wneud rhaglenni y gallai rhai pobl eu cael yn sarhaus neu'n anghytuno'n gryf â hwy, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r Cod.

4.13 Gwelsom nad oedd profiadau cynulleidfaoedd o gwyno i'r BBC yn cymharu'n dda â chwynion i sefydliadau eraill. Adroddodd llai nag un o bob pump (18%) o gael profiad boddhaol gyda'r BBC.[49] Roedd hyn yn sylweddol waeth na boddhad â chwyno i Ofcom (56%) neu gwmnïau cyfryngau eraill (44%).[50] Ar yr un pryd, dywedodd rhai cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol eu bod yn dal y BBC i safon uwch oherwydd ei sefyllfa unigryw ac yn disgwyl mwy ohono, o gymharu â darlledwyr eraill.

4.14 Amlygodd yr astudiaethau achos ansoddol ac ymchwil siopa dirgel amrywiaeth o faterion:

- **Diffyg ymwybyddiaeth** o'r broses gwynion – dim ond 21% o'r cyfranogwyr oedd yn ymwybodol o'r broses BBC First a dim ond 7% a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r broses tri cham lawn.
- **Diffyg eglurder** am y broses – teimlodd rhan fwyaf o siopwyr dirgel (41 o 49) na chawsant wybodaeth briodol yng Ngham 1a ar sut i esgoli eu cwyn. Bu dryswch hefyd ynghylch a oedd achwynwyr wedi cyflwyno cwyn swyddogol neu wedi cysylltu â'r BBC mewn ffordd yr oedd y BBC yn ei hystyried yn 'sylw' neu'n 'adborth'. Mewn rhai achosion arweiniodd hyn at anfodlonrwydd ynghylch diffyg ymateb sylweddol.
- Pryder am **naws a manylder yr ymateb a gafwyd** – roedd bron i saith o bob deg (69%) o'r cyfranogwyr yn anfodlon ar yr ymdrech yr oedd y BBC wedi'i gwneud i ymdrin â'r gŵyn. Dywedodd 54% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol, a oedd wedi gwneud cwyn i'r BBC, eu bod wedi cael profiad 'gwael', gyda 22% yn ei ystyried yn 'wael iawn'.
- Pryder am yr **amser a gymerodd y broses** – dywedodd llai na hanner yr achwynwyr eu bod wedi cael ymateb cychwynnol sylweddol o fewn pythefnos, sef amser ymateb

[49] Dywedodd dros hanner (54%) yn yr arolwg meintiol fod y profiad yn wael (dywedodd 22% ei fod yn wael iawn). Dywedodd 20% a 55% fod eu profiad o gwyno i Sky a Virgin Media TV yn y drefn honno yn wael/gwael iawn. Ofcom, 2022. Canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r system gwynion BBC First, t.18; t.34.

[50] Dywedodd 11% fod eu profiad o gwyno i Ofcom yn wael (dywedodd 5% ei fod yn wael iawn).

targed y BBC.[51] O'r rhai a gafodd ymateb, roedd traean yn fodlon ar gyflymder yr ymateb. Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr o'r farn bod tri cham y BBC cyn esgoli i Ofcom yn ormod.[52]

## Mae'n rhaid i'r BBC wneud mwy i wella hyder yn ei benderfyniadau golygyddol a'r ffordd y mae'n ymdrin â chwynion

4.15 Mae'r BBC wedi cydnabod yr angen i gynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn ei phrosesau gwneud penderfyniadau a chwynion golygyddol, gan nodi bod eu Cynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol yn "nodi camau gweithredu manwl i sicrhau'r safonau golygyddol uchaf, gan gynnwys bod yn ddiduedd, ar draws holl allbwn y BBC".[53] Nodwn i Adolygiad Serota wneud argymhellion penodol ynghylch trin cwynion, gan gynnwys y dylai'r BBC gyhoeddi, gyda rhesymu digonol, canfyddiadau unrhyw ymchwiliadau i achosion difrifol o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC.[54] Mae'r BBC yn diweddaru ei Fframwaith Cwynion o ganlyniad, er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch rôl gyffredinol y Cyfarwyddwr Cyffredinol mewn ymchwiliadau safonau golygyddol. Rydym yn croesawu'r newidiadau hyn a'r ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol.

4.16 Fodd bynnag, credwn fod angen newidiadau mwy sylweddol i BBC First er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd.

### Mae'n rhaid i'r BBC wella BBC First ar frys i'w gwneud yn gliriach ac yn symlach i gynulleidfaoedd wneud ac esgoli cwynion

4.17 Dim ond nifer fach o achwynwyr sy'n penderfynu mynd â'u cwyn ymhellach (ei hesgoli naill ai o fewn system y BBC ac i Ofcom).[55] Mewn rhai achosion, gallai hyn fod oherwydd bod achwynwyr yn fodlon ar ymateb y BBC ac wedi dewis peidio â symud ymlaen ymhellach. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn awgrymu y gallai'r gyfradd esgoli fach fod o ganlyniad i faterion eraill fel rhwystredigaeth gyda'r broses, diffyg eglurder o ran sut i symud cwyn ymlaen neu ddiffyg ffydd y bydd y BBC yn ymdrin â chwyn yn briodol. Roedd pryderon na fydd cwyno'n gwneud gwahaniaeth neu ddim yn cael ei gymryd o ddifri yn llawer uwch gyda'r BBC na chyda darlledwyr eraill. Dywedodd pedwar o bob deg (42%) na fyddai cwyno i'r BBC yn gwneud gwahaniaeth a theimlai 29% na fyddai eu cwyn yn cael ei chymryd o

---

[51] Dywed y BBC ei fod yn "*ceisio ymateb o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cwyn er y gallai rhai cwynion gymryd mwy o amser nag eraill i ymchwilio iddynt*".
[52] Ofcom, 2022. Canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r system gwynion BBC First, t.35.
[53] BBC, 2021. Impartiality and Editorial Standards Action Plan, t.1.
[54] BBC, 2021. Adolygiad Serota , t. 2; t.26.
[55] Ni chyhoeddodd y BBC ei ffigurau cwynion golygyddol ar gyfer 2020/21, ond dangosodd ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20, o'r 368,377 o gwynion golygyddol a chyffredinol a dderbyniodd yng ngham 1 yn y flwyddyn ariannol honno, mai dim ond 759 a gafodd eu hesgoli i gam 2 a dim ond 212 o'r rheini a gafodd eu cyfeirio at Ofcom. Fel y nodwyd uchod, ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 dim ond 185 o gwynion a dderbyniwyd gan Ofcom yr oeddent wedi cwblhau'r broses BBC First.

ddifri. Roedd hyn yn cymharu â 22% a 17% yn y drefn honno ar gyfer darlledwyr eraill (ITV/Channel 4/Channel 5).

4.18 Mae'n rhaid i'r BBC ystyried gwelliannau i BBC First ar frys er mwyn sicrhau ei fod yn **syml** ac yn **glir** a bod **tryloywder** yn gwella. Yn benodol, dylai'r BBC sicrhau:

a) Bod cynulleidfaoedd yn deall sut i gwyno wrth y BBC a bod y broses yn hawdd. y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng cwynion ffurfiol ac adborth.

b) Bod achwynwyr yn derbyn cydnabyddiaeth ac yn cael eu hysbysu'n briodol am weithdrefnau esgoli ar bob cam o'r broses.

c) Mae'n gwneud popeth o fewn ei gallu i gyrraedd ei thargedau ymateb ac ystyried y rhesymau dros anfodlonrwydd y gynulleidfa â'r amser y mae'n ei gymryd i ymdrin â chwynion.

d) Mae achwynwyr yn glir ynghylch lefel debygol y manylder yn ymatebion y BBC ar y dechrau.

4.19 Byddwn yn rhoi sylw manwl a rheolaidd i effeithiolrwydd BBC First. Disgwyliwn i'r BBC ystyried a chymryd camau priodol yn ofalus mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan gynulleidfaoedd yn ein hymchwil a byddwn yn trafod y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud gyda'r BBC. Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o'r system BBC First cyn diwedd y Siarter bresennol i asesu effaith y newidiadau a wnaed gennym ac unrhyw newidiadau a wnaed gan y BBC mewn ymateb i'r adolygiad hwn. Byddwn hefyd yn diweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC First yn ystod y ddwy i dair blynedd nesaf.

## Mae'n rhaid i'r BBC fod yn fwy tryloyw ac agored ynglŷn â'i phenderfyniadau

4.20 Dim ond os bydd gennym hyder y bydd y cwynion mwyaf difrifol yn cael eu hesgoli i Ofcom pan fydd achwynwyr yn anfodlon ar ymateb y BBC y gall system BBC First weithio. Mae hyn yn gofyn am dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn ymdrin â'i chwynion.

4.21 Pan fu i ni ymgymryd â rheoleiddio'r BBC, gwnaethom roi gofynion ar waith i'r BBC gyhoeddi data cwynion fel y byddai ei rhesymeg dros ei phenderfyniadau'n glir i gynulleidfaoedd ac i Ofcom. Ers hynny, rydym wedi cyflwyno gofynion pellach i wella tryloywder. Mae'r BBC bellach yn cyhoeddi gwybodaeth bob pythefnos am nifer y cwynion golygyddol a phob cwyn a gynhelir, a gynhelir yn rhannol ac a ddatrysir yng Ngham 2.[56] Gwnaethom hefyd ddiwygio ein Penderfyniadau am Gwynion ym mis Mehefin 2020 i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei rhesymeg dros benderfyniadau nas cynhelir ac sy'n bodloni meini prawf penodol.[57] Fodd bynnag, nid yw'r BBC wedi cyhoeddi unrhyw

[56] Gan ddilyn newidiadau a wnaed gan y BBC i'w Fframwaith Cwynion o ganlyniad i achos BBC Breakfast.
[57] Cytunodd y BBC i'r rhestr ganlynol o ystyriaethau nad ydynt yn gynhwysfawr a fyddai'n debygol o gyfeirio ei barn wrth gyhoeddi'r rhesymu sy'n ymwneud â phenderfyniadau cam 2 nas cynhelir: lefel y budd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â mater(ion) y gŵyn; nifer y cwynion a esgolwyd i'r ECU; proffil y rhaglen (neu eitem arall o allbwn) y cwynir amdani; natur yr achwynydd (e.e. parti cyntaf neu drydydd parti, corff corfforaethol, person mewn bywyd cyhoeddus); arwyddocâd y posibilrwydd o dorri safonau a nodwyd; niwed posib i enw da; a lle mae cwynion am yr un eitem wedi'u cynnal, ac mae'r rhesymau dros beidio â chynnal eraill yn bwysig er mwyn deall rhesymu'r ECU.

benderfyniadau 'nas cynhelir' ers i'r gofyniad hwn gael ei roi ar waith. Mae'r BBC wedi dweud wrthym mai'r rheswm am hyn yw ei bod o'r farn nad oedd yr un o'i benderfyniadau 'nas cynhelir' yn bodloni'r meini prawf.

4.22 Heb dryloywder ychwanegol ynglŷn â'r ffordd y mae'r BBC wedi ymdrin â chwynion nas cynhelir yng Ngham 2, ni allwn fod yn hyderus ynghylch cadernid penderfyniadau'r BBC. Mae'r diffyg tryloywder hwn yn peryglu tanseilio dilysrwydd y system BBC First ar gyfer cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â dealltwriaeth gyfyngedig o sut yr ymdrinnir â themâu pwysig fel didueddrwydd dyladwy gan y BBC. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio bod penderfyniadau 'nas cynhelir' yn cyfrif am tua 90% o'r holl gwynion Cam 2.

4.23 Mae'r BBC wedi dweud y byddai cyhoeddi'r rhesymeg y tu ôl i'w holl benderfyniadau ECU 'nas cynhelir' yn gofyn am adnoddau ychwanegol sylweddol. Rydym yn anghytuno â'r BBC. Gan fod pob achwynydd eisoes yn cael ymateb unigol gan yr ECU yn nodi'r sail ar gyfer canlyniad eu cwyn, rydym o'r farn na fyddai cyhoeddi'r rhesymu yn anghymesur.

4.24 Felly, rydym wedi diwygio ein Penderfyniadau ar Gwynion, i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi penderfyniadau Cam 2 'nas cynhelir' sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- pob penderfyniad sy'n ymwneud â chwyn am gywirdeb dyladwy neu ddidueddrwydd dyladwy (gan gynnwys yn ystod cyfnodau etholiad a chyfnodau refferendwm); a
- phob penderfyniad sy'n ymwneud ag achos lle mae'r BBC wedi derbyn mwy na 100 o gwynion am yr eitem yng Ngham 1a.

4.25 Mae diduedd dyladwy yn parhau i fod yn faes allweddol sy'n peri pryder i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid. Bydd mwy o eglurder ynghylch sut mae'r BBC yn asesu pryderon yn y maes hwn yn rhoi mwy o hyder i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn y penderfyniadau a wneir ac yn helpu i ddangos ymrwymiad y BBC i fod yn ddiduedd.

## Dylai'r BBC ddarparu gwybodaeth gynnar i Ofcom am faterion golygyddol a allai fod yn ddifrifol

4.26 Gall Ofcom gamu i mewn ac ymyrryd yn gynnar mewn amgylchiadau eithriadol. Gallwn hefyd lansio ymchwiliad i safonau golygyddol yn absenoldeb cwyn, os credwn ei bod yn briodol gwneud hynny. Er mwyn bod yn hyderus ym mhroses y BBC, mae angen dealltwriaeth dda arnom o sut mae'r BBC yn ymdrin â'r cwynion golygyddol mwyaf difrifol a chael ein bodloni ei bod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod BBC First yn effeithiol.

4.27 Mae hyn yn gofyn am ymgysylltu rheolaidd rhwng Ofcom a'r BBC. Mae'r BBC wedi awgrymu cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob dau fis gydag Ofcom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr holl ddatblygiadau perthnasol yn y maes hwn, gan gynnwys gweithredu Adolygiad a Chynllun Gweithredu Serota. Byddwn hefyd yn cwrdd â Phwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol Bwrdd y BBC yn rheolaidd.

4.28 Er hynny, mae bwlch sylweddol o hyd yng ngallu Ofcom i ddwyn y BBC i gyfrif. Ar hyn o bryd, nid yw'n rhoi gwybod i ni am achosion o dorri amodau golygyddol a allai fod yn ddifrifol (waeth p'un a yw'r rhain wedi'u codi gyda'r BBC fel cwynion ai beidio) yn gynnar yn

ei phroses. Felly, rydym wedi gofyn i'r BBC roi manylion i ni am y tor rheolau posib hyn cyn gynted ag y bydd yn eu nodi. Dyma a wnaeth ar gyfer ei rheoleiddiwr blaenorol, Ymddiriedolaeth y BBC (er nad oedd o dan unrhyw rwymedigaeth ffurfiol i wneud hynny), ac ni welwn unrhyw reswm pam na all wneud yr un peth yn awr. Os nad yw'r BBC yn fodlon darparu'r wybodaeth hon i Ofcom yn wirfoddol, byddwn yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud newid i'r Cytundeb fel y gallwn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu'r wybodaeth hon.

4.29 Yn ogystal, gall unrhyw gŵyn yn y cyfnod cyn etholiad (neu refferendwm) godi materion o sylwedd. Os cânt eu cynnal, mae'n bosib y byddai angen unioni'r cwynion hyn yn gyflym cyn i'r etholiad gael ei gynnal. Felly, mae'n bwysig bod Ofcom yn hyderus bod y BBC yn gwneud popeth o fewn ei gallu i hwyluso cwynion yn ystod cyfnodau etholiad. Rydym yn croesawu cydsyniad diweddar y BBC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni'n rheolaidd am gwynion golygyddol difrifol a sylweddol posib sy'n gysylltiedig ag etholiadau yn ystod cyfnodau etholiad a refferendwm.

4.30 Yn olaf, yr ydym yn cynnig ymdrin â bwlch yr ydym wedi'i nodi ym maes rhaglennu etholiadol. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i'r BBC gydymffurfio â rheolau Ofcom ar adrodd ar etholaethau ac ardaloedd etholiadol, fel y nodir yn Adran Chwech y Cod.[58] Er bod Canllawiau Etholiad y BBC ei hun yn cyfateb yn fras i'n gofynion yn y maes hwn, credwn ei bod yn bwysig i'r BBC gydymffurfio â rheolau Ofcom, sy'n gweddu i rai darlledwyr eraill.[59] Byddwn yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud y newid cyfreithiol priodol fel bod hyn yn glir.

## Er mwyn cynnal hyder y cyhoedd rhaid i'r BBC ymdrin â phryderon sy'n codi o ganfyddiadau o'i didueddrwydd dyladwy

4.31 Mae bod yn ddiduedd yn flaenoriaeth allweddol i'r BBC. Y cyntaf o'i bum diben cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter bresennol yw *"darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas"*. Mae craffu ar ddidueddrwydd dyladwy'r BBC wedi bod yn uchel erioed ond mae wedi dwysáu'n ddiweddar mewn hinsawdd wleidyddol gynyddol begynol. Mae didueddrwydd dyladwy yn parhau i fod yn her gymhleth i'r BBC.

4.32 Er mai'r BBC yw'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf yn y DU, gyda'i chynulleidfaoedd yn ei sgorio'n uchel am ymddiriedaeth a chywirdeb, mae ein Hadolygiad Defnydd Newyddion wedi dangos yn gyson eu bod yn tueddu i raddio'r BBC yn is am ddidueddrwydd dyladwy.[60] Dangosodd ein Hadolygiad Newyddion 2019 fod canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn cael eu symbylu gan amrywiaeth o ffactorau – llawer ohonynt nad ydynt yn ymwneud â chynnwys y BBC.[61] Roedd y

[58] O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd), Adran 93.
[59] Mae S4C hefyd yn cael mabwysiadu ei rheolau adrodd ei hun ar gyfer etholaethau ac ardaloedd etholiadol ond mae'n dewis mabwysiadu rheolau Ofcom yn y maes hwn sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Darlledu (Gweler Canllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni, Gwrthdaro Buddiannau a Buddiannau Gwleidyddol, 2017).
[60] Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2021 sampl ar-lein yn unig.
[61] Ofcom, 2019. Adolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC, t.14.

canfyddiadau hyn yn ymwneud â materion cymdeithasol eang fel amrywiaeth a doniau ar y sgrin, y ffordd y mae pobl yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin, a ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â brand ehangach y BBC ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.

4.33 Dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â gorfodi safonau didueddrwydd dyladwy yw asesu a yw darnau unigol o gynnwys y BBC yn cydymffurfio â rheolau didueddrwydd dyladwy ein Cod Darlledu. Mae hyn yn golygu asesu a yw'r BBC wedi ffafrio un ochr dros y llall a rhoi amser digonol a phriodol i amrywiaeth o safbwyntiau, gan ddibynnu ar y cyd-destun a phwnc neu natur y rhaglen. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried hawl y BBC i ryddid mynegiant a hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth.

## Caiff canfyddiadau o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC eu symbylu gan amrywiaeth o ffactorau cymhleth

4.34 Er mwyn cyfeirio ein hadolygiad, cynhaliwyd ymchwil pellach ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC. Awgrymodd ein hymchwil i ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC First mai'r testun pryder mwyaf ynghylch didueddrwydd dyladwy'r BBC oedd 'tuedd' a bod y BBC yn llawer mwy tebygol o gael ei ystyried yn dueddol (39% o gymharu â 15%) neu â chynnwys camarweiniol (26% o gymharu â 12%) na darlledwyr eraill.[62] Mae ein hymchwil didueddrwydd dyladwy yn dangos bod canfyddiadau o ddidueddrwydd dyladwy yn parhau i gael eu dylanwadu gan y ffordd y mae pobl yn gweld ac yn ymgysylltu â'r BBC yn fwy cyffredinol.[63]

4.35 Yn benodol, bu i ni nodi bod cynulleidfaoedd yn dal y BBC i safon uwch na darlledwyr eraill oherwydd eu hymdeimlad o berchnogaeth ar y BBC. Caiff newyddion teledu, radio ac ar-lein y BBC eu barnu'n wahanol gan gynulleidfaoedd yng ngoleuni eu rolau penodol, gyda newyddion teledu'r BBC yn cael eu barnu'n fwy llym na gwasanaethau eraill y BBC. Disgwylir i newyddion teledu'r BBC fodloni ystod ehangach o gynulleidfaoedd, a chynrychioli'r DU gyfan, yn wahanol i wasanaethau darlledu teledu eraill yr ystyrir eu bod yn apelio'n well at gynulleidfa benodol. Defnyddiwyd cynnwys newyddion ar-lein y BBC gan yr ystod ehangaf o gyfranogwyr yn ein hastudiaeth – cafodd ei werthfawrogi'n fawr am ei ymagwedd ffeithiol a llawn gwybodaeth ac fe'i heriwyd yn llai ar ei ddidueddrwydd dyladwy oherwydd y ffocws hwn.

4.36 Gwelsom fod canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn cael eu symbylu gan amrywiaeth o ffactorau ar wahân i gynnwys y BBC y maent yn ei wylio neu'n gwrando arno. Mae'r ffactorau'n cynnwys y ffordd y maent yn gweld eu hunain yn cael eu portreadu ar y sgrin, beirniadaeth o'r BBC yn y cyfryngau a'u barn am y BBC yn ehangach. Roedd barn wleidyddol bersonol cynulleidfaoedd a chryfder eu teimladau am destun y cynnwys hefyd yn dylanwadu ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy. Teimlai rhai cyfranogwyr i fecanwaith ariannu'r BBC olygu ei bod yn fwy tebygol o fod o blaid y Llywodraeth ac y byddai'n ei chael yn anodd adrodd straeon yn annibynnol. I'r

[62] Ofcom, 2022. Canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r system gwynion BBC First, t.16.
[63] Ofcom, 2022. Drivers of Perceptions of Due Impartiality.

gwrthwyneb, roedd eraill o'r farn bod y BBC a'i darpariaeth newyddion yn tueddu i'r chwith ac yn wrth-geidwadol.

4.37 Mae'r BBC yn gweithredu mewn tirwedd ddiwylliannol a newyddion gymhleth a heriol lle mae gan gynulleidfaoedd fynediad at newyddion mewn mwy o ffyrdd nag erioed o'r blaen, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol. Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym fod mynediad at newyddion drwy ffynonellau ar-lein (gan gynnwys gwylio lluniau 'amrwd' o ddigwyddiadau newyddion a sylwebaeth gan bobl nad ydynt yn newyddiadurwyr) yn golygu bod straeon (neu agweddau ar straeon) nad ydynt wedi'u cynnwys gan y BBC bellach yn fwy gweladwy iddynt ac y gallent weithiau eu harwain i ystyried bod y BBC yn 'dueddol drwy hepgoriad’. Gallai faint o sylw a roddwyd gan y BBC i stori benodol hefyd ddylanwadu ar ganfyddiadau cyfranogwyr o'i ddidueddrwydd dyladwy, ond i raddau llai. Roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi sioeau trafod fel *Question Time* yn fawr ond bu feirniadaeth gan rai cyfranogwyr ynghylch yr amrywiaeth o safbwyntiau a gynhwyswyd yn ogystal â chynnwys safbwyntiau y dywedodd rhai eu bod yn eithafol.

4.38 At hynny, defnyddiodd cynulleidfaoedd signalau 'caled' a 'meddal' i wneud penderfyniadau greddfol yn y fan a'r lle am ddidueddrwydd dyladwy. ‘Roedd signalau 'meddalach' yn cynnwys ciwiau cyflwyno megis tôn llais neu iaith corff gohebydd neu gyflwynydd a graddau'r her i gyfwelai. ‘Roedd signalau 'caletach' yn cynnwys dangos pob ochr i stori neu roi amlygrwydd clir i gynnwys ffeithiol.

4.39 Mae'r holl ffactorau hyn yn parhau i ddylanwadu ar ganfyddiadau o duedd a didueddrwydd dyladwy y BBC.

## Rydym yn parhau i dderbyn nifer fawr o gwynion am y BBC ynghylch didueddrwydd dyladwy

4.40 Mae ein hymchwil diweddaraf yn cadarnhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i roi pwys sylweddol ar y syniad y dylai'r BBC fod yn ddyladwy ddiduedd. Er bod lefel y cwynion i Ofcom am ddiffyg didueddrwydd dyladwy yn rhaglenni'r BBC yn parhau i fod yn uchel, nid ydym wedi gweld bod y BBC yn torri gofynion didueddrwydd dyladwy'r Cod dros gyfnod y Siarter hwn.[64] Mae gan y BBC gofnod da o gydymffurfio â rheolau darlledu a fwriedir i sicrhau bod rhaglennu'n ddyladwy ddiduedd.[65] Er enghraifft, fel a nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar y BBC, yn ôl y BBC, yn ystod y cyfnod Ebrill 2017 i fis Mawrth 2021, cadarnhaodd Uned Gwynion Gweithredol y BBC gwynion yn rhannol neu’n gyfan gwbl mewn 22 o achosion, (allan o gyfanswm o 112), lle canfuwyd nad oedd y safon briodol o ddidueddrwydd dyladwy wedi’i gosod.

4.41 Gall Ofcom hefyd ymchwilio i gwynion y mae'n eu derbyn ynghylch a yw darnau unigol o gynnwys y BBC yn cydymffurfio â rheolau didueddrwydd dyladwy ein Cod. Ar wahân i'r un

[64] Rydym wedi lansio un ymchwiliad i ddidueddrwydd dyladwy'r BBC mewn perthynas â *World At One*, BBC Radio 4, 24 Chwefror 2021, 13:00.

[65] O'r cyfanswm o 5,429 o gwynion a dderbyniwyd gennym am y BBC yn 2020/21, roedd 1,530, neu 28% o'r holl gwynion am y BBC i Ofcom, yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy. O'r 185 o gwynion a aseswyd gennym, roedd 82 (44%) yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy. [65] Ofcom, 2021. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21, t.83.

ymchwiliad a lansiwyd gennym,[66] nid ydym wedi'i ystyried yn gymesur i agor ymchwiliad llawn i gwynion didueddrwydd dyladwy. Ond er tryloywder ac er mwyn rhoi arweiniad pwysig i'r BBC i'w helpu i gydymffurfio â'n rheolau didueddrwydd dyladwy, rydym wedi cyhoeddi ein rhesymu mewn rhai achosion.[67]

## Mae'n rhaid i'r BBC wella hyder y cyhoedd yn ei hymagwedd tuag at ddidueddrwydd dyladwy

4.42 Fel y nodwyd, mae'r ystod o ffactorau sy'n symbylu canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy yn cyflwyno heriau cymhleth i'r BBC ac mae llawer o'r ffactorau hyn y tu allan i gylch gwaith Ofcom. Mae dethol storïau, dewis gwesteion a thôn rhaglenni yn feysydd o ddisgresiwn golygyddol i'r BBC, a hynny'n briodol. Mae'n bwysig, ac yn unol â rhyddid mynegiant, y gall darlledwyr gynnwys safbwyntiau y gallai rhai pobl eu cael yn sarhaus neu'n heriol. Ein rôl ni yw ymyrryd dim ond pan fydd rhaglennu'n codi materion sylweddol o dan y Cod.

4.43 Fodd bynnag, mae cynnal hyder cynulleidfaoedd yn niduеddrwydd dyladwy'r BBC yn hanfodol i'r BBC. Bydd tryloywder yn y ffordd y mae'n ymdrin â chwynion am ddidueddrwydd dyladwy – y rhai y mae'n eu cynnal a'r rhai nad yw'n eu cynnal – yn helpu i: gynnal hyder drwy roi mwy o eglurder i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ynghylch sut mae'r BBC yn ymdrin â'r mater hwn; caniatáu goruchwyliaeth effeithiol gan Ofcom; a dangos ymrwymiad y BBC a ddatganwyd yn gyhoeddus i fod yn ddyladwy ddiduedd. Felly, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi ei rhesymeg dros bob cwyn am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd Cam 2 ei broses gwynion.

4.44 At hynny, mae'n bwysig bod y BBC yn ymdrin â'r gwahaniaeth ymddangosiadol rhwng agweddau cynulleidfaoedd at ei ddidueddrwydd dyladwy a'i record dda ei hun o gydymffurfio â'r Cod. Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddod o hyd i ffyrdd creadigol o ddangos ei hymagwedd at fod yn ddiduedd a'i hymrwymiad iddo. Yn ei araith gyntaf fel Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2020, ac wrth ymddangos gerbron Pwyllgor Dethol Senedd y DU ers hynny, nododd Tim Davie fod didueddrwydd dyladwy yn ymrwymiad allweddol, a bod angen i'r BBC "*hyrwyddo ac ailymrwymo i ddidueddrwydd*" ar frys.[68] Mewn ymateb i Adolygiad Serota, nododd y BBC hefyd nifer o gamau gweithredu yn ei Chynllun Gweithredu Safonau Didueddrwydd a Golygyddol. Er mai materion i Fwrdd y BBC yw'r rhain, rydym yn bwriadu monitro sut y caiff y camau hyn eu gweithredu dros weddill cyfnod y Siarter. Rydym yn disgwyl i'r BBC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni'n rheolaidd am weithredu'r holl agweddau perthnasol ar Adolygiad a Chynllun Gweithredu Serota, gan gynnwys:

- diweddariadau rheolaidd ar arolygon didueddrwydd thematig y BBC;
- cael gweld ymchwil barhaus y BBC ar ddidueddrwydd dyladwy;

[66] Gweler troednodyn 65.
[67] Ofcom, 2021. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21, tt.85-86.
[68] BBC, 2020. Araith gyflwyniadol Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC.

- rhagor o wybodaeth am fwriad y BBC i gryfhau'r prosesau sydd ar waith i rannu gwybodaeth ar lefel uwch am dueddiadau, risgiau a materion golygyddol sy'n dod i'r amlwg; a
- manylion pellach y cynlluniau i gymryd camau mewn perthynas â chwynion datgelu camarfer.

4.45 Mae'n rhaid i'r BBC asesu'n gadarn ac adrodd yn dryloyw ar y camau hyn er mwyn cynnal ymddiriedaeth y gynulleidfa yn y maes pwysig hwn. O ystyried pwysigrwydd cyflwyno didueddrwydd dyladwy'r BBC, byddwn yn cynnal ymchwil pellach ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf, ochr yn ochr â'n hymchwil pellach i BBC First.

### Crynodeb o'r argymhellion i Lywodraeth y DU

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ystyried:

(1) Newid y Cytundeb fel rhan o'i Adolygiad Hanner Ffordd trwy Siarter y BBC i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC roi gwybodaeth i Ofcom am achosion posib o dorri amodau golygyddol difrifol yn gynnar, os nad yw'r BBC yn cytuno i ddarparu'r wybodaeth hon i Ofcom yn wirfoddol.

(2) Gwneud y newid cyfreithiol priodol i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC gydymffurfio â rheolau Ofcom ar adroddiadau etholaethol ac etholiadol.

# 5. Cynigion ar gyfer newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC

**Yn yr adran hon rydym yn cynnig diweddaru'r Drwydded Weithredu fel ei bod yn:**

(1) Gosod gofynion newydd ar wasanaethau ar-lein y BBC.

(2) Rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC lle gall hyn ei galluogi i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well, ond gan gadw cwotâu lle mae angen mesurau diogelu penodol, gan gynnwys mewn perthynas â darparu newyddion a materion cyfoes ac i sicrhau natur unigryw.

(3) Ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi mwy o wybodaeth a gwell gwybodaeth gyda'i Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol.

## Mae angen i ni ddiweddaru'r Drwydded Weithredu i alluogi trawsnewidiad y BBC i sefydliad digidol yn gyntaf

5.1 Fel y nodwyd yn Adran 2, mae'r tirwedd gyfryngau sy'n newid yn gyflym yn creu nifer o heriau a chyfleoedd i'r BBC, ac mae angen iddi foderneiddio a thrawsnewid er mwyn ymateb i'r rhain. Er mwyn parhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, mae'n rhaid i'r BBC addasu'r ffordd y mae'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd ac yn taro tant gyda phob cynulleidfa ar draws y DU.

5.2 Pennwyd Trwydded Weithredu gyntaf y BBC pan ddechreuom reoleiddio'r BBC yn 2017. Mae'r Drwydded yn sicrhau bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y BBC, ei bod yn cyflawni ei Chenhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, ac yn darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Mae hyn yn rhan bwysig o'r ffordd yr ydym yn dwyn y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd.

5.3 Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Drwydded Weithredu gadw i fyny â newidiadau yn amgylchedd y cyfryngau a pheidio â chyfyngu ar y BBC wrth iddi drawsnewid. Ar hyn o bryd, mae'r Drwydded yn cynnwys cwotâu sy'n benodol i wasanaethau teledu a radio unigol y BBC yn bennaf, gyda chydnabyddiaeth gyfyngedig o'r cynnwys y mae'n ei ddarparu ar-lein. Nid yw hyn yn cyd-fynd ag ymddygiad cynulleidfaoedd a datblygiadau technolegol a gallai fod yn ffordd o drawsnewid y BBC. At hynny, nid yw'r Drwydded ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC fod yn dryloyw ynghylch ei chynlluniau a'i pherfformiad.

## Er mwyn dwyn y BBC i gyfrif yn effeithiol, rydym yn cynnig Trwydded ddigidol aml-lwyfan wedi'i hategu gan dryloywder cynyddol

5.4 Mae'n rhaid i'r Drwydded Weithredu newydd sicrhau bod y BBC yn parhau i gyflawni ar gyfer pob cynulleidfa, nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym dair prif egwyddor:

a) **Mae'n rhaid i'r Drwydded ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC.** Mae BBC iPlayer, BBC Sounds, gwefan y BBC, a gwasanaethau ar-lein eraill sy'n rhan o BBC Online wedi mynd yn fwyfwy pwysig o ran cyrraedd cynulleidfaoedd. Rydym am sicrhau ein bod yn dwyn y BBC i gyfrif am ei darpariaeth ar-lein i gynulleidfaoedd, yn ogystal â chydnabod cyfraniad y gwasanaethau hyn i Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Mewn ymateb i'n hymgynghoriad cychwynnol, roedd rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan y dylai Trwydded Weithredu newydd y BBC ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC.[69]

b) **Mae angen i'r Drwydded roi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu sut i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.** Y BBC sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa gynnwys i'w greu a sut y caiff ei gyflwyno fel bod pob cynulleidfa yn cael ei gwasanaethu'n dda. Rydym yn cynnig rhoi amodau newydd yn lle rhai cwotâu lle rydym o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd o fudd i gynulleidfaoedd, ond i gadw cwotâu lle credwn fod eu hangen o hyd, er enghraifft i ddiogelu newyddion a materion cyfoes. Roedd rhanddeiliaid yn pryderu y gallai dileu cwotâu gael effaith negyddol ar gynulleidfaoedd a chystadleuaeth ac arwain at ostyngiad yn y gwerth cyhoeddus a'r natur nodedig pe bai'r BBC yn rhoi'r gorau i ddarparu cynnwys sy'n llai tebygol o gael ei ddarparu mewn mannau eraill.[70] Rydym wedi ystyried yn ofalus lle mae angen cadw cwotâu er mwyn diogelu cynulleidfaoedd. Lle rydym yn bwriadu eu dileu, bydd disgwyl o hyd i'r BBC ddarparu ystod eang o gynnwys nodedig yn y DU a byddwn yn rhoi gofynion ar waith ar gyfer tryloywder ychwanegol.

c) **Bydd y Drwydded yn gofyn am fwy o dryloywder gan y BBC**. Rydym wedi gofyn dro ar ôl tro i'r BBC wella ei adroddiadau er budd cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid. Mae ein Trwydded arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi gwybodaeth benodol gyda'i Chynllun Blynyddol a'i Hadroddiad Blynyddol, gan gynnwys ei chynlluniau ar gyfer oriau o allbwn lle rydym yn bwriadu dileu cwotâu. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol y dylid cael mwy o dryloywder ac adroddiadau mwy effeithiol gan y BBC.[71]

d) **Byddwn yn dwyn y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd.** Bydd y Drwydded arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC fod yn fwy tryloyw, a bydd hyn, ynghyd â'n gwaith

---

[69] Ymateb y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Radio Masnachol i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, tt.1-2; Ymateb CAMERA-UK i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb Campaign for Regional Broadcasting Midlands i'r ymgynghoriad t.3; Ymateb Professional Publishers Association i'r ymgynghoriad t.1; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.10. 2, 15; S. Ymateb Stein i'r ymgynghoriad, tt.1-2; Ymateb Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb Listener and Viewer (VLV) i'r ymgynghoriad, p.3; ac ymateb Writers' Guild of Great Britain i'r ymgynghoriad t.3;

[70] Ymateb Pact i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Radio Masnachol i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb Writers' Guild of Great Britain i'r ymgynghoriad t.2; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, tt.3-4. Ymateb Pwyllgor Ymgynghorol Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i'r ymgynghoriad, tt.2-3; Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.4.

[71] Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Yr Alban i'r ymgynghoriad, tt.1-2, 5; Ymateb y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Radio Masnachol i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Campaign for Regional Broadcasting Midlands i'r ymgynghoriad t.3; Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, tt.1-2; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb MG ALBA i'r ymgynghoriad, tt.1-2; Ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad t.1; Ymateb Pact i'r ymgynghoriad, tt.5-6; Ymateb Professional Publishers Association i'r ymgynghoriad t.2; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad tt.6, 10-46; Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb Wireless Group i'r ymgynghoriad, pp.1, 6; ac ymateb Writers' Guild of Great Britain i'r ymgynghoriad t.2-3;

monitro parhaus, yn ein galluogi i weithredu'n gyflym os ydym yn pryderu am gydymffurfiaeth y BBC ag amodau ei Thrwydded. At hynny, rydym yn monitro perfformiad ehangach y BBC drwy ein rhaglen helaeth o ymchwil i gynulleidfaoedd, o wybodaeth a ddarparwyd i ni gan y BBC a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Os oes gennym bryderon difrifol am gynlluniau neu berfformiad y BBC, byddwn yn yn cymryd camau'n ddi-oed i osod amodau trwydded newydd. Esbonnir ein hymagwedd yn fanylach yn Adran 5 ein hymgynghoriad.

## Yr ydym yn ymgynghori ar sut y gellir ymgorffori'r egwyddorion hyn ym mhob Diben Cyhoeddus

5.5 Mae ein cynigion ar gyfer gofynion sy'n sail i gyflawni pob Diben Cyhoeddus wedi'u nodi'n llawn yn ein hymgynghoriad ar Drwydded Weithredu'r BBC – yma rydym yn crynhoi'r prif gynigion.

### Diben Cyhoeddus 1 - newyddion a materion cyfoes

5.6 Y BBC yw'r darparwr newyddion a ddefnyddir fwyaf yn y DU, ac mae'n chwarae rhan bwysig o ran hysbysu cynulleidfaoedd ar draws y DU yn gywir am y newyddion diweddaraf. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig. Yn ogystal, canfu ymchwil ddiweddar i'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd deimlo bod cynnwys llawn gwybodaeth y BBC yn fwy dibynadwy a chywir na chan ddarparwyr eraill.[72] Er mai teledu yw'r brif ffordd o hyd y mae llawer o bobl yn cael eu newyddion, a BBC One yw'r ffynhonnell newyddion unigol a ddefnyddir fwyaf o hyd, mae newyddion ar-lein yn mynd yn gynyddol poblogaidd.[73]

5.7 Ar gyfer Diben Cyhoeddus 1, mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn cynnwys cwotâu sy'n berthnasol i deledu a radio yn bennaf, a gofynion sy'n pennu pa mor aml y dylid darparu newyddion a materion cyfoes. Dim ond dau amod Trwydded sydd ar gyfer BBC Ar-lein; mae'r rhain yn ymwneud â newyddion plant ar-lein a chysylltiadau digonol â deunydd a ddarperir gan drydydd partïon.

5.8 Mae darparu newyddion cywir o ansawdd uchel y gellir ymddiried ynddynt yn ganolog i gylch gwaith y BBC. Gan hynny, rydym yn cynnig cadw'r cwotâu presennol i sicrhau bod y fath allbwn ar gael yn hwylus, gan gynnwys ar adegau pan fo cynulleidfaoedd yn fwyaf tebygol o fod yn defnyddio'r gwasanaeth hwnnw.[74] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cynulleidfaoedd yn defnyddio mwy o newyddion ar-lein, felly rydym yn cynnig cyflwyno gofynion newydd i'r BBC sicrhau bod rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar gael bob dydd ar BBC iPlayer a BBC Sounds, ac i'r cynnwys hwn fod yn hawdd ddod o hyd iddo.

---

[72] Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn amgylchedd presennol y cyfryngau, 2021, t.24.
[73] Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2021 sampl ar-lein yn unig.
[74] Mae'r Drwydded gyfredol yn cynnwys cymysgedd o gwotâu dyddiol, wythnosol a blynyddol. Er i ni fwriadu cadw'r cwotâu newyddion a materion cyfoes, rydym yn bwriadu newid yr holl gwotâu dyddiol ac wythnosol i gwotâu blynyddol (gyda'r un lefel gyffredinol o allbwn gofynnol) er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar y BBC ac Ofcom.

## Diben Cyhoeddus 2 - dysgu

5.9 Mae'r BBC yn ddarparwr pwysig o gynnwys dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed. Mae'r cynnwys hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn gyson ac yn cael ei dderbyn yn dda gan gynulleidfaoedd, gyda bron i 70% o rieni â phlant o dan 16 oed yn cytuno bod addysg y BBC yn cynnig cymorth i blant iau gyda'u dysgu.[75] Mae ymchwil yn dangos bod rhieni a phlant yn ymddiried yn y cynnwys addysgol a ddarperir gan y BBC.[76] Gwerthfawrogwyd cynnig addysg y BBC yn benodol yn ystod y pandemig, gan ddarparu cynnwys dysgu ar draws BBC Bitesize a gwasanaethau teledu'r BBC, yn cydweddu â chwricwlwm pob gwlad, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei wasanaethu.

5.10 Mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn gosod cwotâu i'r BBC ddarparu genres, rhaglenni dogfen a cherddoriaeth arbenigol sydd mewn perygl ar sianeli teledu a gwasanaethau radio penodol. Mae hefyd yn gosod gofynion disgrifiadol ar y BBC i gyflwyno cynnwys sy'n cefnogi dysgu cyn-ysgol ar CBeebies ac ar gyfer dysgu ffurfiol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau ar draws y DU ar BBC Online.

5.11 Mae'r BBC wedi perfformio'n gryf hyd yma o ran darparu cynnwys dysgu ac rydym yn disgwyl i hyn barhau dros weddill cyfnod y Siarter. Mewn Trwydded Weithredu newydd, mae ein cynigion felly'n canolbwyntio ar gryfhau'r wybodaeth y mae'r BBC yn ei darparu am y ffordd y mae'n cyflawni Diben Cyhoeddus 2. Gyda hyn mewn golwg, credwn y dylai fod gan y BBC hyblygrwydd i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu cynnwys dysgu i gynulleidfaoedd o bob oed ar draws ei gwasanaethau darlledu ac ar-lein ac rydym yn cynnig na ddylid gosod unrhyw gwotâu o dan Ddiben Cyhoeddus 2. Rydym hefyd yn cynnig symud y gofynion i'r BBC ddarparu gwahanol genres, rhaglenni dogfen a rhaglennu cerddoriaeth i Ddiben Cyhoeddus 3.

## Diben Cyhoeddus 3 - naws unigryw

5.12 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn rhoi'r angen i'r BBC fod yn unigryw wrth ei wraidd, gan ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gynnig allbwn a gwasanaethau sy'n sylweddol wahanol i ddarparwyr tebyg. Dros gyfnod y Siarter hwn, rydym wedi nodi i'r BBC barhau i gynnal safle arbennig yn nhirwedd cyfryngau'r DU, gyda 61% o gynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu cymysgedd eang o gynnwys.[77] Mae'r BBC hefyd yn parhau i ddarparu maint sylweddol o gynnwys gwreiddiol yn y DU – sylfaen naws unigryw y BBC – er bod hyn yn dirywio, yn enwedig mewn rhai genres sydd mewn perygl.[78] Yn benodol, mae ymchwil wedi nodi i gynulleidfaoedd gysylltu'r BBC yn benodol â dramâu o ansawdd uchel, sydd, yn eu barn hwy, yn wahanol i ddarparwyr eraill.[79]

---

[75] Traciwr Perfformiad Ofcom y BBC 2020/21.
[76] Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn amgylchedd presennol y cyfryngau, 2021, t.24.
[77] Traciwr Perfformiad Ofcom y BBC 2020/21.
[78] Mae genres mewn perygl yn cynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth, rhaglenni i blant, comedi, ffeithiol arbenigol (e.e. gwyddoniaeth a hanes) a chrefydd.
[79] Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn amgylchedd presennol y cyfryngau, 2021, t.25.

5.13 Ar hyn o bryd mae'r Drwydded Weithredu yn gosod cwotâu sy'n benodol i wasanaethau ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf,[80] yn ogystal ag ar gyfer comedi, cerddoriaeth a sylwebaeth chwaraeon. O ystyried bod cynnwys gwreiddiol y DU yn greiddiol i natur unigryw'r BBC, rydym yn cynnig cadw cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol (yn unol â'r gofyniad yn y Cytundeb) ac ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn cynnig rhoi hyblygrwydd i'r BBC ddarparu rhywfaint o'i gwota rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf gyda chynnwys ar BBC iPlayer, er mwyn iddi ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar-lein ar yr un pryd â pharhau i ddiogelu naws unigryw gwasanaethau teledu'r BBC.

5.14 Rydym yn cynnig symud i ffwrdd o gwotâu ar gyfer genres a rhaglenni dogfen, ac ar gyfer rhai o'r amodau rhaglennu cerddoriaeth. Yn hytrach, rydym yn cynnig gosod rhwymedigaethau ar y BBC i ddarparu ystod eang o allbwn mewn amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys ar ei gwasanaethau. I gefnogi hyn, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi gwybodaeth benodol gyda'i Chynllun Blynyddol, megis ei horiau arfaethedig mewn gwahanol genres, ac adrodd ar sut y mae wedi cyflawni hyn gyda'i Hadroddiad Blynyddol.

5.15 Rydym hefyd yn cynnig diogelu natur unigryw gwasanaethau radio unigol y BBC drwy gadw cwotâu cerddoriaeth ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2, cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig ar BBC Radio 3, a sylwebaeth chwaraeon ar BBC Radio 5 Live. Credwn fod y cwotâu hyn yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod y BBC yn unigryw o'i chymharu â darparwyr radio masnachol. Rydym yn cynnig dileu cwotâu ar gyfer yr holl ofynion radio presennol eraill, o blaid rhwymedigaethau newydd. Yn hytrach, byddai'n ofynnol i'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o allbwn, a byddai gofynion tryloywder newydd yn ei gwneud yn ofynnol iddi nodi gwybodaeth benodol am sut y mae'n gwasanaethu pob cynulleidfa gyda'i hallbwn radio, megis nifer y gweithiau cerddorol y mae'n bwriadu eu comisiynu a'u darlledu ar Radio 3.

5.16 Er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd ar-lein yn cael eu gwasanaethu'n dda gyda chynnwys unigryw, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno gofynion newydd i'r BBC egluro sut mae BBC Sounds a BBC iPlayer yn cyfrannu at ei naws unigryw gyffredinol.

## Diben Cyhoeddus 4 – y gwledydd a'r rhanbarthau, ac amrywiaeth

5.17 Mae'n rhaid i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y DU. Mae cynulleidfaoedd wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chynrychiolaeth yn gryf. Wrth ofyn iddynt beth oedd bwysicaf iddynt yn bersonol i'r BBC ei gyflawni, graddiwyd "dangos amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni" a "chynnwys a wnaed ar gyfer cynulleidfaoedd y DU" ill dau yn uchel.[81] Er hynny, rydym wedi gweld yn

[80] Rhaglenni gwreiddiol o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer gwasanaeth teledu'r BBC nad ydynt wedi'u dangos ar deledu yn y DU o'r blaen.
[81] Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn amgylchedd presennol y cyfryngau, 2021, t.27.

gyson fod gan rai grwpiau cynulleidfa foddhad is â'r BBC, megis cynulleidfaoedd anabl, y rhai yn yr Alban a'r rhai o gefndiroedd llai cefnog.[82] Yn ogystal, canfu ymchwil ddiweddar fod cynulleidfaoedd yn nodi mai "cynnwys sy'n cynnwys fy rhanbarth i / Yr Alban / Cymru / Gogledd Iwerddon" oedd un o'r agweddau a raddiwyd isaf.[83] Er i ni amlygu hyn fel maes i'w wella, mae pryderon ynghylch cynrychiolaeth a phortreadu yn parhau – roedd 56% o'r holl gynulleidfaoedd yn graddio'r BBC yn uchel yn y maes hwn, y sgôr gadarnhaol isaf o'r holl Ddibenion.[84]

5.18 Ar hyn o bryd mae'r Drwydded Weithredu yn gosod gofynion ar gyfer amrywiaeth, portreadu cynulleidfaoedd a chynrychiolaeth. Mae hefyd yn gosod cwotâu ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau a rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar draws teledu a radio, yn ogystal â gofynion ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC Ar-lein. Er bod rhai o'r amodau hyn yn parhau i fod yn effeithiol, credwn y gallai eraill fynd ymhellach i sicrhau bod pob cynulleidfa yn cael ei gwasanaethu'n dda gan y BBC.

5.19 Er enghraifft, fel yn achos Diben Cyhoeddus 1, credwn fod angen cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y BBC yn darparu gwybodaeth berthnasol o ansawdd uchel i bob cynulleidfa. Credwn hefyd fod cwotâu ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran sicrhau buddsoddiad yn eu heconomïau creadigol. Rydym yn cynnig y dylai'r BBC allu darparu rhai o'i gwotâu cynhyrchu i'r gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

5.20 Yn gyson â'n cynigion i ddileu cwotâu ar gyfer genres, rydym hefyd yn cynnig dileu cwotâu rhaglennu nad yw'n newyddion a materion cyfoes y BBC ar fersiynau cenedlaethol a rhanbarthol BBC One a BBC Two ('y gwasanaethau optio allan'). Yn hytrach, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu ystod eang o gynnwys, gan gynnwys rhaglennu nad yw'n newyddion a materion cyfoes yn y gwledydd a'r rhanbarthau, nodi ei chynlluniau o ran sut y bydd yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon ac adrodd ar sut y mae'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd.

5.21 Rydym hefyd yn cynnig cryfhau'r gofynion tryloywder sy'n ceisio dwyn y BBC i gyfrif am y ffordd y mae'n cynrychioli cymunedau amrywiol y DU ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd yn gyhoeddus ar ei rhwymedigaethau o ran cynrychiolaeth a phortreadu a chryfhau gofynion adrodd mewn perthynas â Chod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC.

---

[82] Pennir grŵp economaidd-gymdeithasol gan sawl ffactor gan gynnwys incwm a swydd. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau uchaf, A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 a C2 yn y canol ac mae'r grwpiau isaf, D ac E, yn llai tebygol o fod yn rhai cefnog.

[83] Ymchwil Ofcom: Ymchwil i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn amgylchedd presennol y cyfryngau, 2021, tt.28-29.

[84] Traciwr Perfformiad Ofcom y BBC 2020/21.

## Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU lle yr ystyriwn y gallai newidiadau i'r Cytundeb gefnogi Trwydded Weithredu newydd

5.22 Ochr yn ochr â'n cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd gan y BBC, rydym wedi nodi argymhellion ar ble y gallai newidiadau i'r Cytundeb gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Gall y safbwyntiau hyn newid, yn dibynnu ar ganlyniad ein hymgynghoriad. Byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ein safbwyntiau dros dro dros y misoedd nesaf.

### Cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

5.23 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn sicrhau bod cyfran addas o'r holl raglenni rhwydwaith yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25. Credwn fod y cwotâu hyn yn bwysig o hyd o ran sicrhau bod y BBC yn parhau i gefnogi'r economïau creadigol ar draws y DU, gan gynnwys ym mhob un o'r gwledydd. Fodd bynnag, dim ond ar ei gwasanaethau teledu darlledu rhwydwaith y gall y BBC ddarparu'r cwota hwn ar hyn o bryd.

5.24 Un o egwyddorion allweddol ein Trwydded Weithredu arfaethedig yw y dylai'r BBC allu darparu cynnwys lle mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd orau – ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-lein. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn ystyried diwygio'r Cytundeb fel bod Ofcom yn gallu gosod cwotâu ar gyfer rhaglenni a wneir yn y DU y tu allan i Ardal yr M25 sy'n berthnasol i raglenni a gynhyrchir ar gyfer y rhwydwaith a BBC iPlayer.

### Rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

5.25 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom bennu cwotâu ar gyfer rhaglennu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau optio allan wedi'u hystyried gyda'i gilydd i sicrhau bod rhywfaint o raglennu newyddion ac nad yw'n newyddion yn cael eu darparu ar draws holl fersiynau cenedlaethol a rhanbarthol BBC One a BBC Two.[85]

5.26 Ar gyfer cynnwys nad yw'n newyddion, credwn y byddai cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n well gan ofyniad i'r BBC ddarparu'r cynnwys hwn, ynghyd â gofynion tryloywder, yn hytrach na chwota. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn ystyried diwygio'r Cytundeb i ddileu'r gofyniad i Ofcom bennu cwotâu ar gyfer rhaglennu nad yw'n newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

### Cynyrchiadau gwreiddiol

5.27 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar bob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU. Ar hyn o bryd, credwn fod y cwotâu hyn yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu

[85] Atodlen 2(6)(1) y Cytundeb.

cynulleidfaoedd gyda maint sylweddol o gynnwys gwreiddiol o'r DU ac o ran capio caffaeliadau ar wasanaethau teledu darlledu unigol. Fodd bynnag, wrth i'r sector darlledu esblygu ymhellach, ac wrth i'r BBC barhau i drawsnewid y ffordd y mae'n darparu ei gynnwys, efallai y daw adeg pan ddylai'r BBC gael hyblygrwydd ychwanegol i ymateb i arferion newidiol cynulleidfaoedd a chael mwy o gyfle i strwythuro ei raglennu gwreiddiol ar draws yr ystod o'i gwasanaethau teledu a BBC iPlayer, lle mae hyn yn diwallu anghenion y gynulleidfa orau. Yn benodol, byddai cwota cynyrchiadau gwreiddiol niwtral o ran gwasanaeth[86] yn caniatáu i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu'r cynnwys hwn ar draws ei holl wasanaethau teledu ac ar-lein.

5.28 Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn ystyried diwygio'r Cytundeb, fel nad yw'n ofynnol bellach i Ofcom bennu cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu. Yn hytrach, byddai'n ofynnol i Ofcom osod cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol sy'n rhoi hyblygrwydd i'r BBC benderfynu pa wasanaethau teledu ac ar-lein y byddent yn eu bodloni.

### Crynodeb o'r argymhellion i Lywodraeth y DU

Felly, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ystyried y newidiadau canlynol i'r Cytundeb fel rhan o'i Hadolygiad Hanner Ffordd trwy Siarter y BBC:

(1) Caniatáu i Ofcom osod y cwotâu ar gyfer rhaglenni a wneir y tu allan i'r M25 sy'n berthnasol i raglenni a gynhyrchir ar gyfer y rhwydwaith a BBC iPlayer.

(2) Dileu'r gofyniad i Ofcom bennu amodau rheoleiddio ar gyfer rhaglennu nad yw'n newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

(3) Addasu'r gofyniad i Ofcom osod cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar bob gwasanaeth teledu fel y gallwn osod cwota niwtral o ran gwasanaeth ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol.

[86] Rydym yn cyfeirio at niwtral o ran gwasanaeth fel darpariaeth drwy deledu neu radio darlledu, neu ar-lein.

# 6. Cynigion ar gyfer newidiadau i'r fframwaith cystadleuaeth

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i'r Cytundeb i roi mwy o hyblygrwydd i Ofcom ynghylch pryd a sut i gynnal asesiad o gystadleuaeth.**

At hynny, mewn ymgynghoriad yr hydref hwn rydym yn bwriadu cynnig fframwaith cystadleuaeth hyblyg wedi'i dargedu'n fwy penodol a all addasu fel amodau cystadleuol yn y newid yn y farchnad. Mae hyn yn cynnwys:

(1) Darparu mwy o eglurder ynghylch ein barn am gystadleuaeth yn y prif sectorau y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt, a sut rydym yn debygol o fynd ati i gynnal asesiadau o gystadleuaeth a gwerth cyhoeddus yn y dyfodol.

(2) Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ymagwedd ymarferol at ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall y BBC roi ystyriaeth briodol i effeithiau posib ei newidiadau arfaethedig ar gystadleuaeth.

## Gosododd y Siarter a'r Cytundeb ofynion ar y BBC ac Ofcom i ystyried effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth

6.1 Mae'r BBC yn sefydliad mawr a ariennir yn gyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein yn y DU. Wrth fodloni'r gofynion a nodir yn y Siarter a'i Chenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus, mae'r BBC yn cael effaith ar gystadleuaeth yn niwydiant y cyfryngau. Gall yr effaith hon fod yn gadarnhaol ac ysgogi galw neu annog arloesedd. Ond wrth gyflawni ei amcanion, gall y BBC hefyd niweidio gallu rhai eraill i gystadlu'n effeithiol.

6.2 Fel yr ydym wedi trafod, mae'n rhaid i'r BBC addasu ei wasanaethau fel y gall barhau i gyflawni yn erbyn y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus wrth i esblygiad y cyfryngau newid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys. Fodd bynnag, os bydd y BBC yn newid ei wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n arwain cynulleidfaoedd i symud oddi wrth wasanaethau masnachol i wasanaethau'r BBC, gall refeniw darparwyr masnachol leihau. Gall hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan leihau'r dewis, ansawdd ac ystod gynnwys cyffredinol sydd ar gael i gynulleidfaoedd y DU. Rydym yn cyfeirio at yr effaith hon fel 'tyrru allan’.[87] Mewn rhai achosion eithafol, gall cwmnïau roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau'n gyfan gwbl, gan danseilio lluosogrwydd a dewis o fewn sector cyfryngau'r DU.

[87] Nid tyrru allan mo'r unig ffordd y gall y BBC niweidio cystadleuaeth – er enghraifft, mae perygl y gallai gweithgarwch y BBC achosi effeithiau niweidiol ar wasanaethau mewn mannau eraill yng nghadwyn gyflenwi cyfryngau'r DU.

6.3 Mae'r BBC yn esblygu'n gyson ac yn gwneud gwahanol fathau o addasiadau i'w gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o newidiadau yn rhy fach i gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth.

6.4 Mae'r BBC yn gyfrifol o dan y Cytundeb am asesu a allai newidiadau fod yn "faterol”. Pan fo newid yn faterol, mae'r BBC yn cynnal asesiad cychwynnol i weld a ellir cyfiawnhau effeithiau cystadleuaeth yn ôl gwerth cyhoeddus.[88] O dan y Cytundeb, mae newid yn faterol os yw'r BBC yn lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu os yw'n newid i wasanaeth sy'n bodoli eisoes a allai gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'r ymagwedd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddeall effaith bosib newid yn gynnar, gan ganiatáu iddi siapio ei chynlluniau wrth iddynt gael eu datblygu er mwyn lliniaru effeithiau cystadleuaeth.

6.5 Mae'n ofynnol i Ofcom adolygu a chymeradwyo'r holl newidiadau perthnasol i wasanaethau'r BBC cyn iddynt gael eu gweithredu. Er nad oes gennym rôl benodol wrth adolygu casgliadau materoldeb lle mae'r BBC wedi canfod nad yw newid yn berthnasol, mae gennym y pŵer i gamu i mewn a chyfarwyddo'r BBC i gynnal PIT os byddwn yn anghytuno ynghylch materoldeb. Pan fydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg o niwed i gystadleuaeth o weithgareddau parhaus y BBC, mae gan Ofcom ymagweddau rheoleiddio i gamu i mewn ac ymdrin â'r rhain gan ddefnyddio Adolygiad Cystadleuaeth y BBC (BCR).


6.6 Mae Ffigur 4 isod yn rhoi crynodeb o rolau'r BBC ac Ofcom o ran rheoleiddio effaith cystadleuaeth gwasanaethau cyhoeddus y BBC. Mae'r prosesau wedi'u nodi'n fanylach yn ein harweiniad.[89]

---

[88] Mae newid yn faterol os yw'n gyfystyr â lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu os yw'n newid i wasanaeth sy'n bodoli eisoes a allai gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth. Ar gyfer newidiadau perthnasol, o dan gymal 8(1) o'r Cytundeb, rhaid i'r BBC gyflawni prawf budd y cyhoedd (PIT).

[89] Ofcom, 2017. Asesu effaith newidiadau arfaethedig i wasanaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: Gweithdrefnau ac arweiniad Ofcom.

**Ffigur 4: Crynodeb o rolau'r BBC ac Ofcom o dan y Siarter a'r Cytundeb ar gyfer rheoleiddio effaith gystadleuaeth gwasanaethau cyhoeddus y BBC**




*Gan ddefnyddio asesiad byrrach, efallai y byddwn ond yn cymeradwyo newid neu'n cyfarwyddo'r BBC i ail-wneud ei PIT.

6.7 Mae gennym rôl hefyd o ran atal niwed cystadleuol a allai godi o weithgareddau masnachol y BBC o ganlyniad i'w perthynas â'r gwasanaeth cyhoeddus. Lle mae'r BBC yn cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol, mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymgymryd â'r rhain drwy is-gwmnïau masnachol ar wahân, y mai BBC Studios yw'r mwyaf ohonynt o bell ffordd. Heb fesurau diogelu rheoleiddio priodol, gellir defnyddio arian cyhoeddus y BBC i roi cymhorthdal neu fudd i'w his-gwmnïau masnachol drwy gynnig gwasanaethau iddynt ar delerau ffafriol, neu ystumio cystadleuaeth drwy roi mantais gystadleuol annheg i'r is-gwmnïau masnachol hynny.

## Mae'r angen i'r BBC arloesi yn gryfach nag erioed, er y gallai'r risg o dyrru allan wedi gostwng mewn rhai meysydd o weithgarwch y BBC

6.8 Fel y nodwyd gennym yn Adran 2, mae niferoedd cynyddol o bobl yn dewis defnyddio cyfryngau ar-lein, gan ddefnyddio gwasanaethau sy'n caniatáu iddynt wylio neu wrando ar gynnwys sydd wedi'i deilwra i'w diddordebau pan a ble y maent am wneudhynny.[90] Mae cwmnïau byd-eang sy'n darparu gwasanaethau cyfryngau ar-lein wedi gyrru'r duedd hon ymhellach drwy wneud buddsoddiadau sylweddol mewn cynnwys gwreiddiol i ddenu pobl

[90] Rydym wedi nodi bod cynulleidfaoedd yn gynyddol yn ffafrio gwasanaethau ar-alw sy'n rhoi hyblygrwydd iddynt ddefnyddio cynnwys yn eu hamser eu hunain, a ble bynnag y bônt – a'u bod yn gwerthfawrogi gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer dewis personol a dewis unigol. Ymchwil Ofcom: Ymchwilio i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd y BBC yn hinsawdd bresennol y cyfryngau

i'w gwasanaethau. Bydd angen i'r BBC barhau i addasu ei wasanaethau ar-lein i sicrhau ei fod yn cyrraedd y grwpiau cynulleidfa hynny sydd bellach yn defnyddio cynnwys ar-lein yn bennaf. Mae'r BBC wedi cyhoeddi cynlluniau strategol i addasu ei gwasanaethau er mwyn iddi fynd yn sefydliad 'digidol yn gyntaf'.[91]

6.9 Mae'r tueddiadau newidiol yn y farchnad hefyd yn ei gwneud yn debygol y bydd gostyngiad yn y risg o'r BBC yn tyrru allan ei chystadleuwyr mewn rhai meysydd o weithgarwch y BBC. Mae presenoldeb cystadleuwyr byd-eang yn effeithio'n sylweddol ar y farchnad, gyda'r BBC a'i chystadleuwyr yn y DU yn colli cynulleidfaoedd i wasanaethau ar-lein. Wrth i sefyllfa marchnad y BBC ddirywio, mae ei gallu i dyrru cystadleuwyr allan yn lleihau. Fel y trafodwyd yn Adran 2, mae'r BBC hefyd yn wynebu pwysau ariannol sydd i ryw raddau yn cyfyngu ar ei gallu i wneud newidiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth. Disgwyliwn fod effaith newidiadau i wasanaethau'r BBC mewn rhai rhannau o'r farchnad yn debygol o fod yn gymharol fach o'i gymharu â'r effaith y mae cwmnïau byd-eang yn ei chael, o ystyried maint y prif ddarparwyr byd-eang a'u gallu i ddefnyddio cyllidebau sylweddol i fuddsoddi ym marchnadoedd cyfryngau'r DU.

6.10 Er hynny, er bod effeithiau cystadleuaeth fyd-eang yn cael eu teimlo ar draws pob rhan o'r farchnad, mae graddfa a rôl gystadleuol y BBC yn amrywio yn ôl ardal y farchnad. Wrth ymateb i'n hymgynghoriad, dadleuodd Radiocentre a Wireless i gyfran y BBC o gynulleidfa radio'r DU olygu ei bod yn arbennig o debygol o achosi effeithiau niweidiol yn y sector radio a sain.[92] Cododd Professional Publishers Association (PPA) a News Media Association (NMA) bryderon am allu'r BBC i niweidio cyhoeddwyr masnachol.[93] Ar y llaw arall, dadleuodd y BBC y dylai penderfyniadau Ofcom ar gymeradwyo newidiadau i wasanaethau'r BBC ystyried bod y farchnad a phrif gystadleuwyr y BBC bellach yn fyd-eang.[94]

## Mae'n rhaid i reoleiddio gadw'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i'r BBC arloesi a chyflawni ar gyfer pob cynulleidfa, a diogelu cystadleuaeth ym marchnad cyfryngau'r DU

6.11 Mae rheoleiddio yn helpu i gynnal cystadleuaeth a phlwraliaeth ym marchnad cyfryngau'r DU. Mae hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn mwynhau manteision dewis eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu diwylliant y DU yn wirioneddol mewn ffyrdd na ellir eu paru â chynnwys gan ddarparwyr byd-eang.

6.12 Mae datblygiadau yn y farchnad yn golygu bod effaith y BBC ar gystadleuaeth dros amser yn debygol o leihau mewn rhai meysydd, ac mae'r angen i'r BBC addasu wedi mynd yn gynyddol bwysig. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol bod rheoleiddio cystadleuaeth yn

[91] Canolfan Cyfryngau'r BBC, 26 Mai 2022. Plan to deliver a digital-first BBC [cyrchwyd 16/06/2022].
[92] Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Wireless i'r ymgynghoriad t.15. 2-3.
[93] Ymateb CPA i'r ymgynghoriad, t.5-7; Ymateb NMA i'r ymgynghoriad, t.4-5.
[94] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t. 9.

taro'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i'r BBC wneud y newidiadau angenrheidiol i'w wasanaethau a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

6.13 Rydym wedi ystyried a fyddai'n briodol i Ofcom ddibynnu ar bŵer wrth gefn yn unig i gamu i mewn ac asesu effaith gweithgareddau parhaus y BBC lle nodwyd tystiolaeth o niwed i gystadleuaeth. Byddai hyn yn newid sylweddol o'r drefn bresennol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar nodi ac ymdrin â niwed posib cyn i newidiadau i wasanaethau'r BBC gael eu gweithredu.

6.14 Byddai cyfundrefn sy'n seiliedig ar bwerau camu i mewn yn unig yn golygu na fyddai unrhyw oedi i'r BBC weithredu'r newidiadau mwy sylweddol i'w wasanaethau. Fodd bynnag, byddai'r cymhellion i'r BBC gymryd camau i liniaru effeithiau cystadleuaeth yn gynnar yn wannach, a dim ond ar ôl i gystadleuwyr i'r BBC gael eu niweidio eisoes y gellid cynnal unrhyw ymyriad rheoleiddio. Efallai na fydd rhwymedïau rheoleiddio a osodir ar y pwynt hwn yn ddigon i ddadwneud effeithiau niweidiol ar allu cystadleuwyr i fuddsoddi yn eu gwasanaethau.

6.15 Roedd llawer o randdeiliaid a ymatebodd i'n hymgynghoriad yn pryderu y gall gweithgareddau'r BBC achosi niwed gwirioneddol i gystadleuwyr yn y DU, gyda nifer yn galw am fwy o graffu rheoleiddiol ar effeithiau cystadleuaeth y BBC mewn rhai meysydd marchnad, megis y sector radio a sain.[95] Roedd nifer o ymatebion yn galw am broses fateroldeb fwy ffurfiol, sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid.[96] Yn ogystal, dadleuodd Radiocentre a Wireless y dylai fod angen prosesau rheoleiddio mwy dwys i gymeradwyo newidiadau'r BBC mewn meysydd sy'n arbennig o debygol o effeithio ar gystadleuaeth.[97] Er enghraifft, dadleuodd Radiocentre y dylai fod yn orfodol i'r BBC gynnal prawf budd y cyhoedd (PIT) ar gyfer newidiadau mewn rhai meysydd marchnad waeth p'un a yw'r BBC o'r farn eu bod yn faterol ai beidio.[98]

6.16 Nid ydym o'r farn bod amodau'r farchnad wedi newid i'r pwynt lle mae'n briodol camu'n ôl o asesiadau cystadleuaeth cyn gweithredu newid i'r BBC. Nid ydym ychwaith yn credu ei bod yn briodol cynyddu lefel y craffu rheoleiddiol, gan gynnwys mewn sectorau lle y gallai newidiadau i wasanaethau'r BBC fod â mwy o botensial i arwain at niwed cystadleuol. Byddai unrhyw gynnydd yn hyd neu gymhlethdod y prosesau presennol yn ei gwneud yn anos i'r BBC wneud y newidiadau sydd eu hangen ar frys fel y gall gyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus.

6.17 Credwn fod lle i wella'r ffordd y mae'r fframwaith presennol yn gweithredu, ac ar yr un pryd cadw digon o amddiffyniad yn erbyn y potensial ar gyfer effeithiau cystadleuaeth heb eu cyfiawnhau. Gallai fod mwy o hyblygrwydd i'r BBC weithredu newidiadau'n gyflymach mewn meysydd lle mae effaith y BBC ar gystadleuaeth yn debygol o fod wedi lleihau, a lle

[95] Ymateb Wireless i'r ymgynghoriad t.14; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad t.3; Ymateb y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Radio Masnachol i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.44; Ymateb PPA i'r ymgynghoriad , t. 8-10.
[96] Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad , t.44; Ymateb PPA i'r ymgynghoriad, t. 7; Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, t.6.
[97] Ymateb Wireless i'r ymgynghoriad t.14.
[98] Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.44.

mae newidiadau wedi'u targedu at feysydd lle gallai fod potensial i'r BBC ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol sylweddol.

6.18 Isod, rydym yn nodi ein syniadau datblygol ar sut y gallwn gyflawni hyn. Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion manwl yn yr hydref a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau posib i'r fframwaith cystadleuaeth dros yr haf.

## Dylai rheoleiddio cystadleuaeth y BBC addasu i fod yn fwy effeithiol a hyblyg, wedi'i ategu gan fwy o dryloywder

### Byddwn yn nodi syniadau pellach ar effaith gystadleuol y BBC, ac ar y mathau o effaith y gall newidiadau i wasanaethau'r BBC eu cyflawni er mwyn creu gwerth cyhoeddus sylweddol

6.19 Mae ein profiad o reoleiddio'r BBC dros y pum mlynedd diwethaf wedi datblygu ein dealltwriaeth o sut mae gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn effeithio ar gystadleuaeth. Gan ddefnyddio hyn ac ystyried barn y BBC a rhanddeiliaid eraill, rydym yn bwriadu edrych ar y prif sectorau y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt fel y gallwn nodi ein barn bresennol ar amodau cystadleuol.

6.20 Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y mae chwaraewyr byd-eang wedi effeithio ar y sectorau a'r effaith bosib y gall y BBC ei chael ar ei chystadleuwyr yn y DU. Ein nod hefyd yw defnyddio ein profiad o adolygu asesiadau gwerth cyhoeddus i nodi ein syniadau ar y mathau o effaith y gall newidiadau i wasanaethau'r BBC eu cyflawni er mwyn creu gwerth cyhoeddus sylweddol. Er enghraifft, rydym wedi dweud o'r blaen[99] y gallai newidiadau sy'n galluogi'r BBC i gyrraedd cynulleidfaoedd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, sy'n bwysig i gydnerthedd hirdymor y BBC, sicrhau gwerth cyhoeddus sylweddol.

6.21 Bydd nodi ein syniadau yn y meysydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r BBC a rhanddeiliaid ynghylch sut y byddwn yn mynd ati i gynnal asesiadau cystadleuaeth ar gyfer gwahanol fathau o newidiadau i'r BBC.[100] Er enghraifft, dylai roi eglurder ynghylch amgylchiadau lle y gallwn gynnal asesiad byrrach o gystadleuaeth.[101]

6.22 Rydym yn cynnig ymgynghori ar hyn yn yr hydref, gan nodi ein syniadau a gwahodd barn a thystiolaeth rhanddeiliaid i gyfeirio ein barn ymhellach.

[99] Ofcom, 2019. Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: Penderfyniad terfynol, t.17- 24; Ofcom, 2021. Asesiad cystadleuaeth ar gyfer sianel deledu BBC Three: Penderfyniad terfynol, t.11 a t.18

[100] Er enghraifft, yn ystod y cam perthnasol, dylai mwy o eglurder alluogi'r BBC a rhanddeiliaid i gael deialog fwy penodol i weld a yw newidiadau i wasanaethau'r BBC yn debygol o fod yn berthnasol.

[101] Mae asesiad byrrach wedi'i nodi yn y Cytundeb fel dewis amgen i'r BCA, y gellir ei ddefnyddio pan fydd ystod gulach o faterion i Ofcom eu hystyried. Hyd yma, nid ydym wedi cynnal asesiad byrrach.

## Yr ydym wedi nodi nifer o newidiadau i'r Cytundeb y gellid eu gwneud i symleiddio prosesau rheoleiddio

6.23 Credwn fod lle i Lywodraeth y DU a'r BBC ddiwygio'r Cytundeb er mwyn caniatáu i brosesau rheoleiddio weithio'n fwy effeithiol. Prif ddiben y newidiadau hyn fyddai rhoi'r hyblygrwydd i ni gyfyngu ar ein mewnbwn rheoleiddio lle credwn fod y BBC wedi asesu ac ymdrin â materion cystadleuaeth yn llwyddiannus, gan ganiatáu i'r BBC wneud newidiadau'n gyflymach mewn marchnad sy'n newid yn gyflymach.

6.24 Os bydd Llywodraeth y DU a'r BBC yn dewis diwygio'r Cytundeb, bydd hyn yn effeithio ar ein rheoleiddio yn y maes hwn yn y tymor hir, ac mae'n debygol y bydd angen i ni adolygu ein harweiniad.[102]

> **1) <u>Newid a argymhellir i'r Cytundeb</u>: Dylai fod gan Ofcom ddisgresiwn ynghylch cynnal BCA neu asesiad byrrach prawf budd y cyhoedd (PIT) y BBC**

6.25 O dan y Cytundeb, mae'n ofynnol i Ofcom gynnal BCA neu asesiad byrrach lle mae'r BBC o'r farn bod newid yn faterol (ac felly wedi ymgymryd â PIT). Rydym yn argymell y dylid newid y Cytundeb i alluogi Ofcom i ganiatáu newid yn y BBC ar ôl adolygu canfyddiadau ei PIT, heb orfod cynnal asesiad ychwanegol.

6.26 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i leihau hyd cyffredinol y broses os gwelwn fod y BBC wedi asesu effeithiau'r gystadleuaeth a gwerth cyhoeddus ei newid yn briodol yn ei PIT, ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ac ystyried eu pryderon yn briodol, a nodi bod unrhyw effeithiau sy'n weddill o ran cystadleuaeth wedi'u cyfiawnhau. Byddai dileu'r BCA neu asesiad byrrach, lle y bo'n briodol gwneud hynny, yn cymell y BBC ymhellach i ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid ac yn caniatáu iddi weithredu newidiadau'n gyflymach, gan gefnogi ei gallu i addasu ei gwasanaethau i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Byddai hefyd yn lleihau dyblygu gwaith diangen rhwng y BBC ac Ofcom.

6.27 Byddem yn cadw'r gallu i gynnal BCA neu asesiad byrrach pe baem o'r farn ei fod yn briodol ac yn gymesur – er enghraifft, pe bai PIT y BBC yn amlwg yn annigonol neu pe baem yn anghytuno â'i gasgliadau; pe bai gennym fynediad at wybodaeth ychwanegol bwysig am effeithiau'r farchnad nad oedd ar gael i'r BBC yn ystod ei PIT; neu os nad oedd y BBC wedi ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid.

> **2) <u>Newid a argymhellir i'r Cytundeb:</u> Dylai Ofcom gael y pŵer i ddefnyddio asesiad byrrach i gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau**

6.28 Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen gosod amodau rheoleiddio i ymdrin ag effeithiau cystadleuaeth heb eu cyfiawnhau a nodir yn PIT y BBC. O dan y Cytundeb, dim ond os byddwn yn cynnal proses BCA lawn y gall Ofcom gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau.

[102] Fel arall, os caiff newidiadau i'r Cytundeb eu cwblhau cyn i ni wneud y newidiadau i'r arweiniad y byddwn yn ymgynghori arnynt yn yr hydref, efallai na fydd angen i ni gynnal adolygiad pellach o'r arweiniad gan y gellir gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ystod yr un broses.

Fodd bynnag, efallai na fydd angen BCA llawn os yw'r BBC wedi cynnal proses PIT drylwyr ac effeithiol.

6.29 Rydym yn argymell y dylid diwygio'r Cytundeb i ganiatáu i Ofcom gymeradwyo newid i'r BBC yn amodol gan ddefnyddio asesiad byrrach. Byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i Ofcom gymryd unrhyw fesurau angenrheidiol i liniaru pryderon ynghylch cystadleuaeth a nodir yn PIT y BBC heb fod angen cynnal BCA llawn yn gyntaf. Unwaith eto, byddai hyn yn helpu i ddileu oedi diangen i'r BBC wrth weithredu newidiadau.

**3) Newid a argymhellir i'r Cytundeb: Ni ddylid ystyried yn awtomatig bod gwasanaethau BBC newydd yn newidiadau 'materol'**

6.30 O dan y Cytundeb, mae unrhyw wasanaeth newydd gan y BBC yn cael ei ystyried yn newid 'materol' yn awtomatig.[103] Mae hyn yn golygu bod hyd yn oed gwasanaethau newydd bach iawn sy'n annhebygol iawn o gael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth yn gorfod bod yn destun PIT. Rydym yn argymell dileu'r agwedd hon o'r diffiniad o fateroldeb er mwyn osgoi prosesau PIT diangen lle mae lefel y risg i gystadleuwyr y DU o wasanaeth BBC newydd yn isel.

6.31 Ni fyddai dileu'r agwedd 'gwasanaethau newydd' ar y diffiniad o fateroldeb yn lleihau ein gallu i graffu ar effeithiau cystadleuaeth, gan y byddai unrhyw wasanaethau newydd yn dal i ddod o dan y prif ddiffiniad o 'newid materol' pe gallent gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Beth bynnag y bo'r achos, o ystyried cyfyngiadau ar gyllid y BBC, mae'r BBC yn llawer mwy tebygol o wneud newidiadau i'w gwasanaethau presennol yn hytrach na chyflwyno rhai newydd.

## Bydd hyblygrwydd ychwanegol yn y modd y mae Ofcom yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynyddu effeithlonrwydd prosesau

6.32 Yn ychwanegol at y newidiadau i'r Cytundeb yr ydym wedi'u hawgrymu, rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod ein prosesau presennol yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn hyblyg.

6.33 Rydym wedi gweithio'n adeiladol gyda'r BBC i gynyddu effeithlonrwydd yn y prosesau presennol. Er enghraifft, bu i ni ddarparu arweiniad ar lunio sylfaen dystiolaeth briodol a model economaidd ar gyfer PIT diweddaraf y BBC ar ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu.[104] Cytunwn â sylw'r BBC yn ei hymateb i'r ymgynghoriad fod cydweithio yn ystod y cam cywain tystiolaeth wedi helpu i leihau dyblygu gwaith y BBC ac Ofcom, ac y dylem ddatblygu'r ymagwedd hon ymhellach.[105]

6.34 Credwn fod potensial i leihau ymhellach y risg o ddyblygu yn y prosesau presennol. Ar hyn o bryd mae ein harweiniad yn nodi y byddwn, gan ddilyn PIT y BBC, yn gwahodd sylwadau trydydd parti i gyfeirio ein barn ynghylch a yw newid i'r BBC yn berthnasol cyn dechrau BCA

[103] Cytundeb y BBC, Cymal 7(7)

[104] Ofcom, 2021. BCA BBC Three – Penderfyniad terfynol Atodiad 1: Ein hymagwedd at fodelu effeithiau'r farchnad ac asesu'r effaith ar SVoD a gwasanaethau teledu drwy dalu

[105] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.9.

neu asesiad byrrach (sy'n cynnwys ymgynghoriad pellach).[106] Ond erbyn y cam hwn yn y broses, byddai'r BBC eisoes wedi canfod bod newid yn faterol ac wedi cynnal PIT, felly mae'n debygol na fydd fawr o fudd i Ofcom ymgynghori'n benodol ar fateroldeb. Felly, rydym yn cynnig diwygio ein harweiniad i egluro na fyddwn ond yn gwahodd sylwadau trydydd parti yn ystod y cam asesu cychwynnol lle mae angen gwneud hynny, er enghraifft, os ydym yn anghytuno â'r BBC bod newid yn berthnasol.

## Mae BCR yn parhau i fod yn offeryn wrth gefn pwysig i sicrhau y gallwn gamu i mewn ac ymdrin â niwed o weithgareddau parhaus y BBC

6.35 Fel rhan o ymagwedd fwy hyblyg at reoleiddio effeithiau cystadleuaeth y BBC, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r gallu i gamu i mewn ac ymdrin ag unrhyw niwed cystadleuol heb gyfiawnhad a allai ddeillio o weithgareddau parhaus y BBC. Mae hyn yn cynnwys effeithiau a allai ddeillio o gyfres o newidiadau cynyddrannol i wasanaethau'r BBC, nad ydynt o bosib yn berthnasol, ond sy'n adio i fyny dros amser i achosi effeithiau cystadleuol arwyddocaol.

6.36 Credwn fod ein pŵer i lansio adolygiad o gystadleuaeth y BBC (BCR) yn parhau i fod yn ddigonol i'n galluogi i ymchwilio a chymryd camau i ymdrin ag effeithiau gwasanaethau parhaus y BBC, ac yn ategu ein rôl o nodi ac ymdrin ag effeithiau newidiadau arfaethedig. At hynny, mae lle i Ofcom archwilio meysydd penodol o weithgarwch y BBC a rhoi eglurder i randdeiliaid ar ein barn am rôl y BBC yn y farchnad, fel y gwnaethom pan wnaethom nodi ein barn ar sefyllfa'r farchnad ac effaith BBC Sounds yn sector sain y DU yn 2021. [107]

6.37 Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Professional Publishers Association (PPA) y dylid ymestyn pŵer BCR Ofcom i ganiatáu mwy o ystyriaeth i effeithiau'r dyfodol mewn rhannau o'r farchnad sy'n datblygu'n gyflym.[108] Er nad ydym o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r broses BCR, byddwn yn defnyddio ein barn ddatblygol am sut mae rôl y BBC yn y farchnad yn newid i gyfeirio prosesau rheoleiddio, gan gynnwys BCR, ble bynnag y bo hyn yn berthnasol.

## Mae angen ymgysylltu agored a thryloyw rhwng y BBC a rhanddeiliaid fel y gall ddeall ei heffaith ar gystadleuaeth

6.38 Er mwyn deall ei effaith ar gystadleuaeth, credwn fod angen i'r BBC ddeall sut y bydd newid arfaethedig i'w wasanaethau yn effeithio ar randdeiliaid. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi digon o wybodaeth iddynt am y newidiadau arfaethedig fel y gallant ystyried yr effaith bosib ar eu busnes.

6.39 Mae ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid yn bwysig er mwyn helpu'r BBC i ddeall sut y gallai ddiwygio newid arfaethedig i liniaru'r effaith ar gystadleuaeth – er enghraifft, drwy addasu cynlluniau fel y bydd newid yn sicrhau allbwn mwy unigryw. Credwn fod y broses hon yn debygol o fod yn ymwneud â manylion newid yn hytrach na'r egwyddor o ba un a all neu y

---

[106] Ofcom, 2017. Asesu effaith newidiadau arfaethedig i wasanaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: Gweithdrefnau ac arweiniad Ofcom, t.16.
[107] Ofcom, 2021. Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad.
[108] Ymateb PPA i'r ymgynghoriad , t.8-10

dylai'r BBC ddatblygu ei gwasanaethau mewn ardal. Gall ceisio partneriaethau gyda phartïon yr effeithir arnynt hefyd helpu i liniaru effeithiau cystadleuol os caiff y rhain eu cynnwys mewn cynlluniau yn gynnar. Amlygwyd potensial partneriaethau'r BBC â diwydiant i sicrhau manteision i'r ddwy ochr yn ymateb Wireless i'n hymgynghoriad.[109]

6.40 Lle mae'r BBC yn dryloyw ac yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, bydd yn ein helpu i fabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg at ymdrin â'n rôl wrth asesu effaith y BBC. Er enghraifft, o dan y newidiadau a argymhellir gennym i'r Cytundeb fel y nodir uchod, byddem yn disgwyl i'r BBC fod wedi ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid yn ystod ei PIT er mwyn i ni gamu'n ôl o ymgymryd â BCA. Byddem yn disgwyl i'r ymgynghoriad PIT gynnwys digon o wybodaeth am gynlluniau'r BBC a'u heffaith bosib er mwyn caniatáu i randdeiliaid wneud sylwadau pwrpasol.[110]

6.41 Mae ymgysylltu effeithiol hefyd yn rhan hanfodol o ystyriaeth y BBC a yw newid yn faterol, gan ei bod yn haws i'r BBC ddiwygio ei chynlluniau i liniaru unrhyw effeithiau diangen ar gystadleuaeth pan fo'r cynlluniau hyn yn eu camau cynnar. Beirniadwyd ymagwedd y BBC yn y maes hwn yn benodol gan rai ymatebwyr i'n hymgynghoriad fel un anhryloyw, gyda rhai rhanddeiliaid yn galw am broses fateroldeb fwy ffurfiol sy'n cynnwys ymgynghori.[111] I'r gwrthwyneb, dadleuodd y BBC fod y broses fateroldeb yn rhy hir eisoes a bod ganddi'r potensial i rwystro ei gallu i arloesi'n gyflym.[112]

6.42 O gofio bod y BBC yn datblygu ei gwasanaethau'n gyson, bydd rhai newidiadau sy'n fach iawn a rhai sy'n cynnwys trawsnewid gwasanaethau presennol. Mae'n ddyletswydd ar y BBC i ystyried effeithiau cystadleuaeth, ac fel rhan o hynny bydd angen iddi ystyried y ffordd briodol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, o ystyried natur y newid sy'n cael ei ystyried. Nid ydym o'r farn y byddai'n gymesur ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gynnal ymgynghoriad ffurfiol bob tro y mae'n meddwl am newid gan nad yw'r rhan fwyaf o newidiadau yn debygol o gael effaith sylweddol.

6.43 Rydym hefyd yn cydnabod y gallai rhanddeiliaid fod â chymhelliant masnachol i geisio gohirio gweithrediad y BBC o newidiadau hyd yn oed lle nad oes fawr o debygolrwydd o effeithiau cystadleuol sylweddol. Un anhawster arall yw y gallai rhanddeiliaid fod â phryderon ynghylch rhannu gwybodaeth gyfrinachol am eu busnesau gyda'r BBC.

6.44 Rydym am siarad â rhanddeiliaid (gan gynnwys y BBC) i ddeall sut y gallai ymgysylltu rhwng y BBC a'i chystadleuwyr weithio'n well yn ymarferol, fel y gallwn nodi disgwyliadau clir ar gyfer ystyried materoldeb yn ein canllawiau.[113] Er efallai na fydd ymgynghori ffurfiol yn gymesur wrth ystyried materoldeb, credwn y byddai deialog anffurfiol rhwng y BBC a rhanddeiliaid perthnasol yn sicrhau bod gan y BBC ddealltwriaeth dda o effeithiau posib ei

[109] Ymateb Wireless i'r ymgynghoriad t.9.
[110] Cododd rhai ymatebion i'n hymgynghoriad bryderon ynghylch y lefel o wybodaeth y mae'r BBC yn ei chyhoeddi yn ei hymgynghoriadau PIT: er enghraifft, ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.2-3; Ymateb Pact i'r ymgynghoriad , t.6.
[111] Ymateb NMA i'r ymgynghoriad, t.4-5; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad , t.4. 43-44, t.46; Ymateb CPA i'r ymgynghoriad, t; Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t. 2; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, t.5-6.
[112] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.
[113] Ofcom, 2017. Asesu effaith newidiadau arfaethedig i wasanaethau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: Gweithdrefnau ac arweiniad Ofcom.

chynigion a sut y gall liniaru'r rhain os oes angen. Byddwn yn nodi ein cynigion i ddiweddaru'r arweiniad fel rhan o'n hymgynghoriad yn yr hydref.

## Mae'n rhaid i'r BBC hefyd ddarparu mwy o eglurder ynghylch ei chynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol

6.45 Yn adran 5, rydym yn esbonio sut mae ein cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu fwy hyblyg yn dibynnu ar fwy o dryloywder gan y BBC ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni ei rhwymedigaethau. Yn yr un modd, mae symud tuag at ymagwedd fwy hyblyg at reoleiddio cystadleuaeth yn dibynnu ar ddarpariaeth gwybodaeth glir y BBC am ei chynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol.

6.46 Mae'n rhaid i randdeiliaid gael lefel resymol o wybodaeth am gynlluniau'r BBC fel y gallant godi pryderon penodol yn gynnar. Roedd rhai ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn pryderu y gallai diffyg gwybodaeth ddigonol am gynlluniau strategol y BBC olygu na fyddai effeithiau cystadleuaeth cronnus cyfres o newidiadau bach, cynyddrannol i wasanaethau'r BBC yn cael digon o graffu rheoleiddio.[114]

6.47 Fel rhan o'n Hadolygiad o Leoliad BBC Sounds yn y Farchnad (2021), daethom i'r casgliad y dylai'r BBC ddarparu digon o wybodaeth am ei chynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn i randdeiliaid wneud sylwadau pwrpasol, a fyddai yn ei dro yn caniatáu i'r BBC wneud penderfyniadau am newidiadau i'w gwasanaethau mewn ffordd fwy gwybodus.[115] Bu i ni ddweud, lle y bo'n briodol, fod y wybodaeth yr ydym yn disgwyl i'r BBC ei rhannu â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau arfaethedig i BBC Sounds yn cynnwys:

- nodi a disgrifio'r cynnwys neu'r nodweddion sy'n newydd;
- lle y bo'n bosib, rhagolygon o ddefnyddio cynnwys neu nodweddion newydd;
- y demograffeg darged y mae'r newid wedi'i hanelu ati; ac
- amserlenni ar gyfer gweithredu'r newid.

6.48 Er mwyn helpu i sicrhau'r tryloywder sydd ei angen i gefnogi ymagwedd fwy hyblyg at reoleiddio cystadleuaeth, efallai y byddai'n briodol diweddaru ein harweiniad fel bod y disgwyliadau a osodir gennym o ran yr wybodaeth a rannwyd gan y BBC am BBC Sounds yn berthnasol i holl wasanaethau cyhoeddus y BBC. Byddai hyn yn golygu nodi digon o wybodaeth mewn Cynlluniau Blynyddol neu, os daw'r newid i'r amlwg y tu allan i'r amserlen ar gyfer ei chynnwys yn y Cynllun Blynyddol, gyda digon o gyhoeddusrwydd i ganiatáu i randdeiliaid fod yn ymwybodol o'r newid. Er enghraifft, byddai rhan benodol o wefan y BBC sy'n cael ei diweddaru'n gyson gyda manylion cynlluniau ar gyfer newid sydd ar y gweill yn ffordd effeithiol o sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

6.49 Dylai lefel y manylder a ddarperir gan y BBC fod yn gymesur â graddfa'r cynigion. Mae hyn yn cynnwys ystyried a yw'r cynlluniau'n effeithio ar rannau o'r farchnad lle mae effaith y BBC ar gystadleuaeth yn debygol o fod wedi gostwng dros amser, fel y trafodwyd uchod. Yn

[114] Ymateb CPA i'r ymgynghoriad, t. 4; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.10.
[115] Ofcom, 2021. Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad, t. 63-64.

ogystal, mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn codi unrhyw bryderon gyda'r BBC yn brydlon a chyda digon o resymu a thystiolaeth i gyfiawnhau'r pryderon hyn.

## Rydym o'r farn ei bod yn bwysig o hyd i'r BBC ystyried cwynion ffurfiol am ei hymagwedd at gystadleuaeth yn y lle cyntaf

6.50 Agwedd allweddol arall ar ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid yw'r ffordd y mae'n delio â chwynion ffurfiol am ei phrosesau rheoleiddio neu ei heffaith ar gystadleuaeth. Fel yn achos cwynion am safonau cynnwys y BBC, o dan y Cytundeb mae cwynion rheoleiddio'n ddarostyngedig i BBC First. Mae hyn yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fyddai rhanddeiliaid yn gallu cyflwyno cwyn i Ofcom heb geisio datrysiad yn gyntaf drwy broses gwynion ffurfiol y BBC.

6.51 Mae rhai rhanddeiliaid wedi codi pryderon ynghylch a yw'n briodol i'r BBC ystyried cwynion rheoleiddio yn gyntaf cyn i'r rhain gael eu cyflwyno i Ofcom. Er enghraifft, dadleuodd ymateb Wireless i'r ymgynghoriad na all y BBC ddod i benderfyniad cadarn na gwrthrychol wrth ystyried cwynion am faterion yn ymwneud â chystadleuaeth.[116] Beirniadodd yr NMA hyd proses y BBC ac awgrymodd y gallai hyn annog cyhoeddwyr masnachol rhag cwyno.[117]

6.52 Efallai y bydd achosion pan fydd yn briodol i Ofcom ystyried y fath gwynion yn y lle cyntaf, ac mae'r Cytundeb yn caniatáu i Ofcom ymchwilio i fater cyn i broses gwynion y BBC ddod i ben o dan amgylchiadau eithriadol.[118] Gall rhanddeiliaid hefyd godi pryderon gyda ni'n anffurfiol ar unrhyw adeg, a allai, yn ymarferol, ddarparu llwybr mwy effeithlon i ddatrys materion cyn iddynt gael eu cyfeirio at gŵyn ffurfiol. Am y rhesymau hyn, credwn ei bod yn dal yn briodol i gwynion rheoleiddio fod yn ddarostyngedig i BBC First.

## Bwriadwn nodi mwy o fanylder yn ein harweiniad ar sut y caiff gwerth cyhoeddus ei asesu

6.53 Rôl Ofcom mewn perthynas â gwerth cyhoeddus yw adolygu asesiad y BBC o'r gwerth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â newid arfaethedig. Mae hyn yn wahanol i'n rôl mewn perthynas ag ystyried yr effeithiau ar gystadleuaeth lle rydym yn cynnal ein hasesiad ein hunain.

6.54 Rydym wedi ystyried a ddylem argymell unrhyw newidiadau i'r rheoleiddio, neu wneud newidiadau i'n harweiniad mewn perthynas â sut y dylai'r BBC fynd ati i asesu gwerth cyhoeddus mewn PIT, yng ngoleuni ein profiad hyd yma. Mae'r BBC hefyd wedi gofyn am fwy o arweiniad gan Ofcom i gyfeirio sut y bydd yn datblygu ymhellach ei hymagwedd at asesu a mesur gwerth cyhoeddus.[119]

---

[116] Ymateb Wireless i'r ymgynghoriad t.13.
[117] Ymateb NMA i'r ymgynghoriad, t.4.
[118] Cytundeb y BBC, 57(2).
[119] Comisiynodd y BBC astudiaeth gan UCL Institute for Innovation and Public Purpose i gyfeirio ei hymagwedd: gweler Mariana Mazzucato, Rowan Conway, Eleonora Maria Mazzoli, Eva Knoll, Sarah Albala, 2020. Creating and measuring dynamic public value at the BBC.

6.55 Nid ydym yn cynnig newidiadau ar raddfa eang i'n harweiniad ar sut y dylid asesu gwerth cyhoeddus. Fodd bynnag, credwn fod mantais mewn rhai meysydd i nodi mwy o fanylion am ein disgwyliadau o ran sut y dylai'r BBC fynd ati i asesu gwerth cyhoeddus yn y dyfodol.

## Gweithgareddau masnachol y BBC

6.56 Fel y nodir uchod, ein rôl mewn perthynas â gweithgareddau masnachol y BBC yw sicrhau nad ydynt yn ystumio'r farchnad nac yn cael mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i'r berthynas â gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ymgymryd â gweithgareddau masnachol drwy is-gwmnïau hyd braich ar wahân ac ar delerau masnachol. Rydym wedi rhoi gofynion ac arweiniad Masnachu a Gwahaniad ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Mae'r rhain yn ymdrin â'r gwahaniad gweithredol, prisio trosglwyddiadau (lle mae nwyddau a gwasanaethau'n cael eu masnachu rhwng yr is-gwmnïau masnachol a'r gwasanaeth cyhoeddus) a sicrhau bod yr is-gwmnïau masnachol a'u llinellau busnes yn ennill cyfradd elw fasnachol dros gyfnod priodol o amser.

### Mae ein hadolygiad o BBC Studios wedi nodi dau faes sy'n destun pryder

6.57 Heddiw hefyd, rydym wedi cyhoeddi adroddiad sy'n nodi canfyddiadau ein hadolygiad o BBC Studios, prif is-gwmni masnachol y BBC. Ein hamcan allweddol yn yr adolygiad hwn oedd deall yn well sut mae'r BBC wedi gweithredu ein rheolau a darparu tryloywder ychwanegol ar hyn i randdeiliaid.

6.58 Yn yr adolygiad hwn, bu i ni nodi bod gan y BBC brosesau a mesurau priodol ar waith mewn rhai meysydd – er enghraifft mewn perthynas â gwahaniad gweithredol. Mewn meysydd eraill, mae gennym rai pryderon. Mae hyn yn cynnwys lle mae BBC Studios yn dosbarthu cynnwys y mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn berchen ar yr eiddo deallusol ar ei gyfer. O dan y trefniadau hyn, mae gan BBC Studios hawl i'r cyfan o'r elw sy'n gysylltiedig â dosbarthu'r hawliau cynnwys eilaidd cysylltiedig. O'r dystiolaeth a welsom hyd yma, nid yw'n glir sut mae'r BBC yn bodloni ei hun ei bod yn cydymffurfio â'n rheolau.

6.59 At hynny, rydym wedi nodi rhai problemau gyda phrosesau gweinyddol y BBC o ran sut mae'n masnachu nwyddau a gwasanaethau rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a BBC Studios. Rydym yn disgwyl i Fwrdd y BBC gymryd camau i ddiweddaru ei hymagwedd ar gyfer y ddau fater hyn ac i edrych yn fwy cyffredinol ar y materion a godwyd a bodloni ei hun bod ei phrosesau a'i threfniadau'n cyfateb i'n rheolau. Yn ein hymgynghoriad yn yr hydref byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'n rheolau i ymdrin â'n pryderon, gan gymryd unrhyw newidiadau a wneir gan y BBC i ystyriaeth.

### Crynodeb o'r argymhellion i Lywodraeth y DU

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ystyried y newidiadau canlynol i'r Cytundeb fel rhan o'i Hadolygiad Hanner Ffordd trwy Siarter y BBC:

(1) Dileu'r cysylltiad rhwng Prawf Budd y Cyhoedd y BBC ac Asesiad Cystadleuaeth Ofcom o'r BBC, fel y gallwn gymeradwyo'r newid heb gynnal asesiad o gystadleuaeth, os cytunwn â dadansoddiad y BBC a'i bod wedi ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.

(2) Galluogi Ofcom i gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau gan ddefnyddio asesiad byrrach.

(3) Newid y diffiniad o newid 'materol' fel nad yw gwasanaethau cyhoeddus newydd yn cael eu hystyried yn faterol yn awtomatig (byddent yn dal i fod yn destun prawf y gallai'r newid/gwasanaeth newydd gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol).